# Y DINESYDD

Gorffennaf / Awst 2025

Papur Pobl Caerdydd a'r Fro

Rhif 499 £1.50



**Teyrngedau i Michael Jones**

**tud.12**



*Y dorf yn Nhafwyl*

**Atgofion o Tafwyl 2025**



# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Hywel Jones**

***Golygyddion Medi***
***Eirian a Gwilym Dafydd***

Cyfraniadau erbyn **27 Awst** at:
eirianagwilym@gmail.com

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Dr David Charles
david.charles1040@gmail.com
7 Vaughan Avenue, Llandaf,
Caerdydd, CF5 2HR

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

e-bost:
ydinesydd@hotmail.com

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Golygyddol

Braint a chyfrifoldeb fawr yw golygu'r rhifyn arbennig hwn o'r *Dinesydd* pan fyddwn fel cymuned Gymraeg yng Nghaerdydd yn cofio ac yn diolch am waith Michael Jones, un o garedigion pennaf yr iaith Gymraeg a'i diwylliant dros yr hanner canrif diwethaf, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae fy niolch yn fawr i Thomas Williams a Heini Gruffudd am eu teyrngedau sydd yn crynhoi'n gelfydd fywyd a gwaith Michael. Rwyf innau'n trysori'r profiad o fod wedi cydweithio ag e ar adeg gynhyrfus yn nhwf addysg Gymraeg yn y brifddinas. Cyfeiria Heini at y cyfnod hwnnw wedi troad y mileniwm pan gyflwynodd Michael y syniad o sefydlu 'egin-ysgolion' cyfrwng Cymraeg a fyddai ymhen amser yn cyrraedd eu llawn dwf ac yn sgil hynny yn creu y galw am ragor o ysgolion gan gynnwys darpariaeth uwchradd. Erbyn hyn mae'r enwau Pen y Pil, Pen-y-Groes, Nant Caerau, Glan Ceubal, Bro Edern ac eraill ar wefusau pawb ar draws y ddinas. Mae'r diolch am hynny i raddau helaeth iawn i Michael a'i waith ymchwil ac ymgyrchu diflino ger bron yr aelodau etholedig a'r swyddogion yn adran addysg Neuadd y Sir. Wrth olygu'r *Dinesydd* yn y cyfnod hwnnw un erthygl a ymddangosai'n gyson fyddai honno gan Michael yn cyflwyno ffrwyth ei ymchwil ac yn manylu ar niferoedd y plant hynny a oedd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd a'r rhai hynny y byddai angen llefydd ar eu cyfer yn y dyfodol – llawer ohonynt prin wedi eu geni! Mynnai fod yr awdurdod addysg yn gwrando arno a bydd y llyfrau hanes yn croniclo mesur ei lwyddiant diamheuol yn hynny o beth.

Gan ystyried hyn, nid cyd-ddigwyddiad yw bod y miloedd sy'n tyrru i Tafwyl yn cynyddu'n flynyddol. Fe fyddwch chi fel fi yn cofio'r ŵyl gyntaf yn 2006 yng nghefn maes parcio tafarn Y Mochyn Du. Erbyn hyn yr her sy'n wynebu'r trefnwyr wrth baratoi at y dyfodol yw sicrhau hyd yn oed rhagor o ofod er mwyn corlannu yr holl ymwelwyr. Roedd clywed y cyffro yn llais cynifer o athrawon ysgolion Cymraeg Caerdydd wrth iddynt gyfeirio at y niferoedd o ddisgyblion a chyn-ddisgyblion a oedd yn crwydro maes Tafwyl yn rheswm i ni i gyd ymfalchïo. Tra'n dathlu cofiwn yn wylaidd ar yr un pryd am yr unigolion hynny sy'n allweddol o ran sicrhau'r llwyddiannau hyn - neb yn fwy na Michael Jones.

*Hywel Jones*
*Gorffennaf 2025*

**Nid yw pwyllgor *Y Dinesydd* o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan y cyfranwyr**.

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd Frenhinol
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



## *Mwynhewch y gwyliau haf*

Hon fydd y golofn olaf tan fis Medi ac mae cant a mil o ddigwyddiadau eisoes wedi digwydd ers cyhoeddi y rhifyn diwethaf o'r *Dinesydd* a felly y tro hwn bydd rhaid i mi ddewis a dethol yr hyn sy gen i i'w draethu!

Cafwyd chwip o Eisteddfod yr Urdd ym Mharc Margam dros y Sulgwyn a safon y cystadlu mor uchel ag erioed. Rwan, does dim llawer o amser i fynd cyn bydd y miloedd yn tyrru i'r Eisteddfod Genedlaethol yn ninas Wrecsam ar ddechrau Awst. Eisoes nôl ym mis Ebrill yr un diwrnod â Rali *Yes Cymru* yn y Barri cynhaliwyd Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod 2026 yn nhre Arberth yn Sir Benfro pan ddaeth dros fil o bobl ynghyd dan arweiniad Gorsedd Cymru. Cafwyd anerchiad grymus ac amserol am heddwch yn y byd gan Mererid Hopwood yr Archdderwydd. Cynhelir yr Eisteddfod mewn lle o'r enw Llantwd ac fe'i gelwir yn Eisteddfod y Garreg Las sy'n dilyn y ffasiwn siwr o fod gan y galwyd Eisteddfod yr Urdd ym Mharc Margam yn Eisteddfod Dur a Môr!

Dydd Sadwrn 27 Medi bydd mudiad yr Urdd yn cynnal gŵyl yn eu gwersyll yng Nglan-llyn ar lan Llyn y Bala i ddathlu'r ffaith bod y gwersyll hwn yn 75 oed eleni. Agorwyd nôl yn 1950 a thros y blynyddoedd mae miloedd o blant a phobl ifanc ein gwlad wedi cael eu hysbrydoli wrth dreulio amser yn y gwersyll hwn. Yno dechreuodd gyrfaoedd canu pobl fel Huw Jones, Dewi Pws, Geraint Jarman, Dafydd Iwan, Edward Morris Jones, Heather Jones, Delwyn Siôn ac ati.

Eleni hefyd mae Ysgol Gymraeg Aberdâr yn dathlu 75 mlynedd ers ei sefydlu ac eisoes cynhaliwyd noson o ddathlu yn Theatr y Colisëwm yn Aberdâr hefo disgyblion presennol yr ysgol a chyn ddisgyblion yr ysgol yn y cyngerdd. Mae'r cyn ddisgyblion yn cynnwys pobl fel Max Boyce, Delwyn Siôn, Gwyn Hughes, Les Davies, Gaynor Morgan Rees, ac Ieuan Rhys. Llongyfarchiadau i Ysgol Gymraeg Aberdâr a hir y parhao.

Onid ydym ni'n lwcus i gael cymaint o barciau a llecynnau gwyrdd i lonni ein calonnau a braf oedd clywed am gynlluniau Cyngor Caerdydd i wella a datblygu Parc Cefn Onn drwy agor caffi ac ati ar safle hen dŷ gofalwr y parc. Mae hi wastad yn brofiad pleserus i grwydro drwy'r parc yn arbennig yn y Gwanwyn i fwynhau'r coed Azaleas yn eu blodau amrywiol. Sefydlwyd y parc hwn tua chan mlynedd yn ôl gan y perchennog ar y pryd sef Ernest Prosser oedd yn gyfarwyddwr Rheilffordd Cwm Rhymni.

Mae Tafwyl drosodd am flwyddyn arall bellach a daeth miloedd i Barc Bute i fwynhau'r wledd o gerddoriaeth Gymraeg dros y penwythnos. Gŵyl arall fydd yn dod i ben wrth ichi ddarllen y geiriau hyn fydd Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ac eleni daeth Nicoletta, gweddw y canwr tenor byd enwog Luciano Pavarotti i'r ŵyl i gyflwyno tlysau i nifer o'r enillwyr ac yn arbennig i gyflwyno Tlws Coffa ei gŵr i'r côr buddugol yng nghystadleuaeth Côr y Byd ar Sadwrn olaf yr ŵyl. Daeth Luciano i Langollen i ganu am y tro cyntaf yn 1955, ac yntau ond yn 19 oed a buodd o a'i dad yn canu mewn côr yn yr ŵyl, ond dychwelodd i Langollen yn 1995 i berfformio mewn cyngerdd yno ac yntau yn ganwr byd enwog erbyn hynny.

Ym mis Mai daeth Delyth Evans o Gaerdydd yn gadeirydd newydd S4C. Bu'n gweithio ym myd newyddiaduraeth i HTV Wales a'r rhaglen *Byd a'r Bedwar* ar S4C cyn mentro i fyd gwleidyddiaeth a rhwng 2000-2003 bu'n aelod Llafur dros Ganol a Gorllewin Cymru. Penodwyd pum aelod newydd o Fwrdd y Sianel hefyd ac yn eu plith mae Betsan Powys, y newyddiadurwr a chyn olygydd rhaglenni BBC Radio Cymru a Dr Gwenllian Lansdown-Davies, prif weithredwr Mudiad Meithrin. Pob dymuniad da a phob llwyddiant iddynt oll yn eu swyddi newydd.

Yn olaf y tro hwn allwn i ddim peidio â chydymdeimlo â thîm pêl-droed dynion Cymru a gollodd yn erbyn tîm pêl-droed dynion Gwlad Belg ym Mrwsel ym mis Mehefin. Cafwyd gêm hynod o gyffrous a adawodd bawb ar flaenau eu seddau. Erbyn hanner amser roedd Cymru ar ei hôl hi o 3-1 a phawb yn ofni'r ail hanner! Ond o na, cododd Cymru ei gêm a chodi dychryn ar dîm Gwlad Belg gan iddyn nhw sgorio a dod yn gyfartal 3-3 tan ychydig cyn diwedd y gêm. Ond yna er mawr siom sgoriodd Gwlad Belg gôl arall a Chymru yn colli 3-4. Dyma'r golled gyntaf i Craig Bellamy ers iddo ddod yn hyfforddwr y tîm ond canmolodd ei chwaraewyr er gwaethaf y golled. Bydd Cymru rwan yn teithio i Kazakhstan ym mis Medi yn eu hymdrech i gyrraedd rowndiau terfynol Cwpan Pêl-droed y Byd y flwyddyn nesa ym Mecsico/ Canada/Yr Unol Daleithiau. Felly pob lwc iddyn nhw. Dwi'n siwr bydd "y Wal Goch" yno yn eu cannoedd os nad yn eu miloedd, i'w cefnogi fel arfer!

Hwyl rwan tan fis Medi a mwynhewch y gwyliau haf ble bynnag y byddwch chi!

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***

**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd**

**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun 16 Mehefin croesawodd ein cadeirydd, Iona Edwards, bawb i gyfarfod ffurfiol olaf y tymor. Wedi cwblhau trefniadau'r swyddogion am y tymor i ddod croesawyd ein siaradwr am y noson Dr Marion Loeffler o Brifysgol Caerdydd, a'r testun oedd "Cymraes o Ddwyrain yr Almaen."

Yn ei ffordd gartrefol a chynnes aeth Marion Loeffler â ni yn ôl i ddyddiau ei phlentyndod ym mhentref Mahlow ar gyrion dinas Berlin, o fewn cyrraedd i'r wal enwog a ddymchwelwyd yn ddiweddarach yn 1989. Dywedodd fod ei phlentyndod hi yn hynod debyg i blentyn yng Nghymru yn y cyfnod hwnnw, gwasanaethau'r capel a chlybiau ar ôl ysgol a oedd yn rhoi cyfle i fynychu cystadlaethau llefaru a chanu, ac yn y pen draw yn gymorth mawr iddi hi yn ei gyrfa.

Roedd hi'n aelwyd gyfforddus ac efallai'n wahanol iawn i'r ddelwedd a oedd yn bodoli yn y Gorllewin. Er hynny roedd cyfyngiadau ar deithio i'r gorllewin, ond dim problem i deithio i wledydd y Dwyrain. Fe fu perthnasau o'r Gorllewin yn ymweld â'r aelwyd yn gyson. Yn ystod ei gyrfa yn y Coleg Humbold Berlin, daeth Dr Sioned Davies i ddarlithio, ac fe wnaeth yr ymweliad hwnnw argraff fawr iawn arni hi, a bu'r ddwy yn gyfeillion ers hynny. Dechreuodd ddysgu Cymraeg a daeth i Goleg Llanbedr Pont-Steffan ar gwrs WLPAN, gan ddilyn cwrs pellach gyda Dr Geraint Jenkins ym Mhrifysgol Aberystwyth, un arall gafodd ddylanwad mawr ar ei gyrfa.

Ar ddiwedd y noson diolchodd Dilwyn Jones i Dr Loeffler am ei sgwrs gynnes, gartrefol a phersonol ac am rannu hynny â'r gynulleidfa.



Dr Marion Loeffler ac Iona Edwards

# Merched y Wawr Caerdydd

Daeth blwyddyn lewyrchus arall i ben gyda thrip MyW Cangen Caerdydd i Gronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien. Cawsom hanes y safle a'r ardal gan un o'n haelodau, Sian Emily Evans. Rhyfedd meddwl mai ffermydd a chymuned gwbl Gymraeg oedd yn ardaloedd presennol Rhydypenau, Llanisien a Chyncoed cyn 1850. Roedd Ffermdy Celyn ar safle Ysgol Uwchradd Caerdydd nes iddo gael ei ddymchwel yn 1959.

Adeiladwyd Cronfa Ddŵr Llys-faen yng nghanol yr 1800au gan ddal dŵr o'r nentydd lleol, ac ychwanegwyd Cronfa Llanisien yn 1886 i storio dŵr o afon Taf Fawr. O 1934 ymlaen, roedd Llys-faen yn darparu dŵr i waith dur dociau Caerdydd.

Yn 1989, yn sgil polisi preifateiddio Margaret Thatcher, gwerthwyd y cronfeydd ac yn 2001 dechreuodd brwydr ffyrnig 12 mlynedd rhwng y bobl leol a'r perchnogion oedd eisiau draenio'r cronfeydd ac adeiladu tai ar y safle. Daeth trobwynt pan ddarganfuwyd ffwng prin yn tyfu ar ymyl y cronfeydd a dynodwyd yr ardal yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SddGA). Yn 2013 ildiodd y perchnogion a gwerthu'r safle i'r cwmni dur, Celsa, am £1. Yn 2016 cytunodd Celsa i brydlesu'r cronfeydd i Ddŵr Cymru am 999 mlynedd a heddiw mae pawb yn gallu mwynhau'r amwynder hyfryd hwn. Diolch, Dŵr Cymru!

Arweiniodd Sian y grŵp o gwmpas Cronfa Llysfaen gan enwi'r llu o adar sy'n byw ar y dŵr ac o'i gwmpas. Roedd yr awyr iach a'r cerdded wedi codi chwant bwyd a daeth y trip i ben mewn ystafell â golygfeydd ysblennydd o'r gronfa lle cawson ni de hael a blasus a chyfle am glonc. Diolch, Sian, am gyflwyniad mor ddiddorol.

Bydd rhaglen 2025/26 yn dechrau ddydd Mawrth 9 Medi ac estynnwn groeso mawr i unrhyw aelodau newydd, yn Gymry Cymraeg neu'n ddysgwyr.

*Joy Davies*



# Colofn Natur



## *Gwylanod Coesddu'r Mwmbwls*

**Gethin Jenkins-Jones**

Roedd yn braf dychwelyd i'r de yn ddiweddar am resymau yn ymwneud â'm gwaith. Rai misoedd yn ôl derbyniais ebost gan S4C yn gofyn am gyfweliad ar gyfer rhaglen ddogfen newydd 'Nôl o'r Dibyn' a fydd yn cael ei darlledu yn y flwyddyn newydd. Yn y gyfres sy'n bartneriaeth rhwng S4C a'r EBU (European Broadcasting Union), bydd y rhaglen hon yn ffocysu ar brosiectau cadwraeth llefydd trefol. Fe wnaeth y tîm holi a oeddwn yn hapus i siarad am y Gwylanod Coesddu sy'n nythu ar y pier y Mwmbwls (ger Abertawe). Mae'r nythfa yno'n eithaf enwog yn yr ardal erbyn hyn a chan nad oeddwn erioed wedi ymweld â'r lle cyn symud i'r gogledd, roeddwn yn hapus iawn i dderbyn y gwahoddiad.

Er bod pawb yn defnyddio'r term 'seagull' am wylanod, mewn gwirionedd dim ond yr Wylan Goesddu sy'n haeddu'r llysenw, gan mai nhw yw'r unig rai o wylanod Prydain sy'n treulio eu holl amser ar lan y môr. Mae'r aderyn yma lawer yn fwy ciwt na Gwylan y Penwaig a'r Wylan Gefnddu Leiaf yr ydym yn eu gweld yn ein dinasoedd, ac yn wahanol i'r ddwy rywogaeth yma, mae ganddynt goesau du a phig bach crwm. Yng Nghymru mae tua 4,500 pâr (o boblogaeth 200,000 y DU), ac mae'r mwyafrif yn nythu ar hyd clogwyni arfordirol, yn enwedig yng ngorllewin y wlad. Mae Gwylanod Coesddu hefyd yn hapus i nythu ar strwythurau dynol, megis llwyfannau olew, ochrau tai ac - yn achos y Mwmbwls - silffoedd nythu artiffisial. Yn ystod y gwanwyn a'r haf, mae'r ardaloedd lle maent yn nythu yn dod yn fyw gyda sŵn yr adar yma, a dw i o hyd yn cael fy synnu pa mor fregus yw ymddangosiad eu nythod ar hyd ymylon y clogwyni serth. Prif fwyd yr aderyn yma yw'r llysywod tywod, ac maent yn eu dal trwy blymio i mewn i'r môr. Mae'r pysgod brasterog maethlon yma'n gwneud i'r cywion dyfu'n gyflym, ac erbyn canol yr haf mae'r mwyafrif wedi gadael y nyth. Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth Cymru yn treulio gweddill y flwyddyn yng nghanol y môr Gwyddelig, i wynebu heriau stormydd cryf y gaeaf cyn dychwelyd i'r clogwyni y gwanwyn canlynol.

Ym mhier y Mwmbwls, dechreuodd Gwylanod Coesddu nythu yn 1994, a chyrhaeddodd y boblogaeth ei uchafbwynt tua degawd yn ôl pan nythodd dros 165 pâr yno. Roedd y boblogaeth yn weddol sefydlog tan ychydig o flynyddoedd yn ôl, pan wnaeth storm ar gychwyn gwanwyn 2023 ddadleoli rhan o'r boblogaeth, i nythu rywle arall ar benrhyn Gŵyr siwr o fod. Mae bygythiadau eraill wedi mynd a dod dros y blynyddoedd ond, yn driw i enaid y Cymry, maen nhw yna o hyd.

Wrth i mi gyrraedd y pier ar ddiwrnod y cyfweliad, gwelais ddwsinau o'r adar yn mwynhau'r heulwen. Hefyd yno i fy nghroesawu roedd Lyndon Jeffrey - dyn

*Llun: Darrel Birkett*



sydd wedi bod yn monitro'r adar yma ers dechrau'r ganrif. Treulion ni ychydig o funudau yn trafod y nythfa cyn i mi gychwyn y cyflwyniad gyda chriw S4C. Un o'r pwyntiau trafod oedd y llwyddiant i ddal gafael ar y nythfa drwy waith atgyweirio a ddigwyddodd yno tua 2011-2012. Heb unrhyw ymyrraeth byddem wedi colli'r adar o'r ardal, ond adeiladodd y datblygwyr silffoedd nythu ar y pier i'r adar yma nythu'n ddiogel. Er bod llai ohonynt ar y silffoedd y diwrnod hwnnw nag oedd rai blynyddoedd yn ôl, roedd yn braf gweld niferoedd da ohonynt, a threuliais yr awr nesaf yn trafod hanes ac ecoleg ehangach yr aderyn yma.

Rhywbeth nad oeddwn wedi ei werthfawrogi am y nythfa yma cyn hyn yw pa mor isel yw'r holl nythod. Yn wahanol i'r mwyafrif o safleoedd nythu - sy'n uchel iawn ar y clogwyni dros wyneb y môr - mae'r nythod yma ar lefel y llygad, sy'n newyddion da os ydych yn ffotograffydd neu eisiau osgoi gorymestyn eich gwddf! Mae'r nythfa hefyd yn un eitha hygyrch. Yn sicr y nythfa agosaf at Gaerdydd, mae'n un o'r ychydig dw i'n gallu meddwl amdanynt y mae modd eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus. Felly, os oes gennych amser cyn canol Awst a ddim yn siŵr sut i dreulio'ch diwrnod, ewch i'r pier a mwynhewch y gwylanod hyfryd yma!

# Pobol y Rhigwm

Digwydd bod, roedd y beirniad yn Aberystwyth ar Hirddydd Haf eleni. Ysywaeth, awyr gymylog oedd iddi, felly ni chafodd fwynhau'r haul ar ei anterth uwchben y môr, wrth fwynhau ei beint yn yr Inn on the Pier! Cysur, felly oedd pelydrau cynnes y casgliad a ddaeth i law y mis hwn. Roedd y testun yn amlwg yn un cymhellol, ynghyd â gofyn mydryddol ychydig yn wahanol i'r arfer. Cafwyd naw ymgais i gyd, cymysgedd cyfartal, mwy neu lai, o gywyddau a thelynegion. Fe allaf ddweud yn gwbwl ddiffuant nad oedd yna'r un ymgais wan, ac fe ges i fy mhlesio gan safon y cynganeddu'n enwedig. Dyma frawddeg am bob un, felly (yn y drefn y ces i nhw), cyn manylu ar y goreuon.

Telyneg fydryddol grefftus *Jac Cau Benthyciad* yw'r un gyntaf o ddwy gerdd sy wedi mynd i drywydd Côr y Cewri, y meini hynny sy'n gwbwl gyfystyr â Hirddydd Haf, wrth gwrs – mae'n llifo'n wych, a'r cyfeiriad at y ffaith fod y cerrig, mae'n debyg, yn hanu o fro'r Preseli, yn wreiddiol. Manylu ar y traddodiad Paganaidd y tu ôl i ddathliadau Côr y Cewri mae cywydd *Tywod*, gan sôn am 'addoli'r haul' a 'miwsig' sy'n 'siomi Iesu' – mae'r cynganeddu a'r fydryddiaeth, fel ei gilydd, yn esmwyth iawn, ond mae arna i ofn mai mymryn yn amwys yw'r llinell glo. Mae gan *Titw Tomos Las* delyneg hyfryd yn nhraddodiad telynegion R. Williams Parry, sy'n codi calon rhywun o'r dechrau'n deg, ac yn disgrifio achlysur sy'n ein "tywys ni i ddyddiau da; / troad y rhod, sef hirddydd ha' " – hoffais hon yn fawr, ond sylwer bod yr arferiad o roi'r ansoddair cyn yr enw ('rhyfedd hud') wedi dyddio, erbyn hyn. Mae telyneg *Euogrwydd* wedi'i saernïo â gofal, a'r euogrwydd o dan sylw yw'r hyn y teimla'r bardd wrth ddiogi ar Hirddydd Haf, tra'n gwylio gwenynen yn llafurio'n frwd i gynhyrchu'r mêl a fydd yn ei gynnal drwy'r gaeaf – cysyniad ardderchog, ond yr un yw'r cyngor ag oedd i *Titw Tomos Las*, sef i osgoi ymadroddion henffasiwn megis "segur orwedd".

Jyst fel i'r haul gyrraedd ei uchafbwynt ar 21 Mehefin eleni, dyma ni'n nesáu at gopa'r gystadleuaeth drawiadol hon. Gair am y ddau a ddaeth yn agos at y copa, i ddechrau:

> Heddiw, nef yw'r flwyddyn hon:
> fflach aur, hoff liw ei choron;
> ceinder ei phen, heulwen hardd
> a thrysor noswaith rhosardd.
> Ar ôl hyn, mae'n llwybr i lawr
> i'w thin ar drothwy Ionawr.
>
> *Carpe Diem*

Hwn yw ymgais ysgafna'r mis hwn, diolch amdano, ac er bod elfennau ffraeth i gywydd *Carpe Diem*, mae yma, hefyd, gynganeddu disglair, yn enwedig yr ail linell a'r bedwaredd linell. Mae'n llifo'n ardderchog, yn ddisgrifiadol iawn, a'r cwpled clo yn cyferbynnu'r wych â barddoniaeth y pedair llinell flaenorol, gan godi gwên yn y fargen – da iawn wir!

> Trown mewn gwae tua'r gaeaf
> A byrhau mae'r dyddiau braf;
> Brwydrau'n gymylau'n ymhel –
> A rhywfodd yn sgil rhyfel
> Claf yw'r haf – na fyn barhau –
> Yn hagrwch sŵn taflegrau.
>
> *Cymodwr*

Newid cywair yn llwyddiannus iawn mae cywydd *Cymodwr*, sef cywydd arall sy'n llifo'n ddiymdrech. Fel yr awgryma'r ffugenw, gresynu am gyflafanau'r oes sy ohoni mae *Cymodwr*, gan ddefnyddio'r diwrnod hiraf fel arwydd o gwymp anochel tuag at ddyddiau tywyll, yn gyfystyr â rhyfeloedd ein byd. Mae'r ymadrodd "claf yw'r haf – na fyn barhau" yn rhagorol. Dau bwynt cynganeddol: I fi, mae sŵn yr 'ae' yn 'gw**ae**' yn *rhy* wahanol i'r hyn sy yn 'g**ae**af' (i'r glust Ogleddol a Deheuol, fel ei gilydd), i gyfiawnhau cynghanedd Lusg. Mae 'hagrwch' a 'thaflegrau', wedyn, yn hen drawiad. Oni bai am hynny, mae'n gywydd gwerth ei halen.

Oes, fel ar Hirddydd Haf ei hun, mae yna ddigonedd o olau dydd yn weddill wrth gyrraedd pen y gystadleuaeth hon! Dyma'r tri gorau, ym marn y beirniad ac yn nhrefn eu teilyngdod (prin iawn yw'r hyn sy'n eu gwahanu).

Bryn Celli Ddu

> Haul Mehefin yn codi'n wylaidd uwchben yr Ynys,
> yn gwenu'n hyderus-grasboeth am hanner-dydd;
> llewyrch yn llenwi'r llwybr i'r siambr; golau'n gorlifo
> dros feddrod, a phelydrau, fel manna
> i eneidiau newynog, yn cynhesu cyndeidiau.
> Enigma hirddydd haf - dechrau neu diwedd ?
>
> *Gwalchmai*

*Gwalchmai* yw'r unig un a gyflwynodd gerdd benrydd y tro hwn, ond doedd hynny'n torri'r un amod, wrth gwrs! Dyma ymgais sy'n ein tywys i Ynys Môn, yn benodol i gladdgell Bryn Celli Ddu, sef tirnod arall â chysylltiadau chwedlonol â Hirddydd Haf. Mae perlau o ymadroddion barddonol yn y delyneg hon, sy'n asio bywyd a marwolaeth ar ddiwrnod mor arwyddocaol ("golau'n gorlifo / dros feddrod, a phelydrau, fel manna / i eneidiau newynog"). Mae hyn oll yn tystio i greadigrwydd *Gwalchmai*, a gallu'r bardd i greu naws. Mae'r llinell glo, wedyn, sy bron yn sefyll fel epigram wrth ei hun, yn hynod ddyfeisgar, ac yn cymell rhywun i feddwl, ai dathlu dyfodiad haf, neu ildio i'r dyddiau byrrach yw hanfod (neu "enigma") Hirddydd Haf. Ardderchog, dyma waith bardd talentog â'r gallu i gydblethu geiriau'n ofalus.

> O na bai pobloedd ein byd
> heb unben na rhaib enbyd,
> heb lais i drais direswm
> na lle i gasineb llwm:
> gwawried y wawr ragoraf –
> gwawr ddihysbydd hirddydd haf.
>
> *Dyhead*

Fel pob cywydd y mis hwn, mae ymgais *Dyhead* yn darllen yn rhwydd iawn, ac mae cyflawni hynny'n unrhyw beth ond rhwydd! Mae'r cywydd ar ei hyd yn ddyhead, ac yn yr un modd â chywydd *Cymodwr*, mae hwn yn digalonni am gyflwr rhyfelgar y byd, jyst ei fod, ym marn y beirniad, wedi'i fynegi â mwy o emosiwn. Unwaith eto, mae yma gynganeddu nodedig a thrawiadau gwreiddiol, cymhleth, megis yr ail linell. Yr uchafbwynt, o ddigon, yw'r chwip o gwpled clo, sy'n defnyddio'r dechneg gref o ailadrodd, neu led-ailadrodd ("**gwawr**ied ... **gwawr** ddihysbydd"). Mae'r gynghanedd Sain urddasol sy'n cloi'r cyfan, wedyn, yn hawlio'i lle i'r dim, ac yn ddyhead ar ei ben. Dyma ddefnydd meddylgar o'r testun, wedi'i gymhwyso'n grefftus.

Rwy'n cofio'r dydd, hirddydd haf,
ac antur y gân gyntaf:
cân mewn trem oedd yn emyn
o wawr Duw, cân orau dyn;
hi yw'r gân o'r wawr a gaf
yn nhymor gwywo'r gaeaf.

***Atgof***

Chwaeth beirniad, i fod yn onest, yw'r unig beth sy'n gwahanu cywyddau *Dyhead* ac *Atgof*. Mae gan *Atgof* gywydd gorffenedig, sy'n llwyddo, rywsut, i swnio fel emyn ar gynghanedd! I fi, wrth ystyried cyfeiriadu crefyddol y cywydd, atgof o'r Creu sy yma, yr hyn a ddarllenwn amdano ar ddechrau llyfr Genesis, cyn cwymp dynoliaeth ("cân orau dyn"). Cywydd arall, felly, sy'n myfyrio ynghylch tynged druenus y byd. Mae yma naratif sy'n argyhoeddi, wedi'i fynegi'n naturiol ar fesur caeth, gyda chwpled clo meistrolgar yn cyferbynnu gwawr odidog Hirddydd Haf gyda dirywiad y gaeaf, y "gân o'r wawr" sy'n cysuro'r bardd yng nghanol "gwywo". Oes, mae yma ddyfnder cynnil yn cuddio o dan symlrwydd twyllodrus y cywydd hwn, ac mae'r cyfan wedi'i lunion ofalus o gydlynol. Mae unrhyw un sy'n llwyddo i greu a chynnal hynny mewn cyn lleied â chwe llinell yn llwyr deilyngu'r wobr gyntaf, llongyfarchiadau mawr.

Teimlaf fod heulwen y golofn hon wedi cyrraedd ei uchafbwynt y tro hwn, diolch am naw cerdd y cefais foddhad mawr yn eu darllen a'u tafoli. Credwch chi fi, byddai'r rhai ar y brig ddim allan o'u lle yng *Nghyfansoddiadau a Beirniadaethau* Steddfod Wrecsam!

Mae'n gynnes! I'r *Dinesydd*,
glywes i mai gwyliau sydd!

*Aron Pritchard*

**Enillydd Mehefin**
**John Emyr, Radur**

**Cystadleuaeth Gorffennaf / Awst**

**Englyn** neu **driban** ar y testun: **Cywain**

*Anfonwch eich cynigion erbyn 25 Awst at: eirianagwilym@gmail.com Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

**Cywiriad:** Yn rhifyn Mehefin nodwyd mai Margaret Griffiths oedd bardd y limrig buddugol, ond Peter Griffiths oedd y bardd. Ymmdiheuriadau iddo.




**Stondin y Dinesydd yn Tafwyl 2025**

Eleni eto roedd gan y Dinesydd stondin yng nghanol maes Tafwyl. Roeddem yn brysur tu hwnt drwy'r penwythnos ac fe lwyddodd y cyfuniad o weithgareddau lliwio i'r plant, sticeri a lolipops i ddenu llawer iawn o blant a'u rhieni – nifer ohonynt yn dysgu Cymraeg. Fe wahoddon ni hefyd Gôr Meibion Taf i berfformio y tu fas i'r stondin ar y pnawn Sadwrn a ddenodd dyrfa dda iawn a phawb wedi mwynhau. Mae Tafwyl yn gyfle gwych inni i gyfarfod ag ymwelwyr, cynyddu nifer ein tanysgrifwyr a chodi ymwybyddiaeth yn gyffredinol am bapur bro Caerdydd a'r Fro. A diolch hefyd i Huw Stephens am roi sylw i'r *Dinesydd* ar raglen uchafbwyntiau S4C!



# Melin
# Yr Eglwys Newydd

**Tymor yr haf**

Bu'n gyfnod reit brysur i Melin yn ddiweddar.  Cafwyd sawl digwyddiad gwych yn ystod tymor yr haf gan gychwyn gyda noson yng nghwmni Huw Chiswell ar nos Wener, 16 Mai yng nghlwb rygbi yr Eglwys Newydd.  Cafwyd modd i fyw yn gwrando ar ddetholiad o ganeuon Chiz yn amrywio o'r clasuron i rai o'i ganeuon mwyaf diweddar gan gynnwys yn amserol iawn, cân y croeso i Eisteddfod yr Urdd Castell Nedd Port Talbot – 'Dur a Môr'.



Ar nos Iau, 12 Mehefin cafwyd noson fendigedig yng nghmwni Ian Gwyn Hughes, Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus Cymdeithas Bêl-droed Cymru.  Bu Angharad Mair yn ei holi am amrywiaeth fawr o destunau gan gynnwys ei atgofion am ei fagwraeth yn ardal Bae Colwyn, ei addysg yn ysgolion Eirias a Glan Clwyd a Phrifysgol Aberystwyth, ei yrfa gynnar gyda'r BBC a'r profiad o fod yn un o sylwebyddion *Match of the Day*, yr unig Gymro i wneud hynny ac yna ei gyfnod hynod lwyddiannus gyda'r Gymdeithas Bêl-droed.  Roedd yn bleser clywed Ian yn siarad yn angerddol am y dylanwadau mawr ar ei fywyd personol a phroffesiynol; roedd ganddo lu o storïau difyr a doniol i'w rhannu gyda'r gynulleidfa yng nghlwb tennis yr Eglwys Newydd a braint oedd ei gael fel gŵr gwâdd.  Codwyd swm anrhydeddus at elusen Hosbis Y Ddinas drwy raffl ar y noson.

Daeth arlwy'r haf i ben ar nos Iau, 26 Mehefin gyda thaith gerdded hanesyddol o amgylch yr Eglwys Newydd dan arweiniad Hefin Mathias.  Daeth tua 40 o bobl ynghyd i ddilyn llwybr oedd yn olrhain hanes y pentref o'i ddyddiau cynnar fel ardal amaethyddol a gwerinol, ymlaen i gyfnod o dwf gyda dyfodiad y ffordd 'turnpike', y gamlas a'r rheilffordd.  Yn sgil cyfnod y chwyldro diwydiannol fe dyfodd y pentref yn faestref i'r ddinas wrth i'r broses trefoli gyrraedd ei hanterth.  Hyd heddiw mae hunaniaeth y pentref yn parhau er iddo gael ei lyncu gan y ddinas.  Diolchwyd i Hefin am ein tywys ar daith addysgiadol a diddorol tu hwnt.  Casglwyd £150.00 at elusen Ysbyty Felindre.

# Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen, Rhanbarth Gwent 2027


Mae'n siŵr i nifer ohonoch chi fwynhau'r arlwy a'r bwrlwm o Barc Margam yn ystod hanner tymor mis Mai, a hel atgofion am yr wythnos wych a gafwyd yn Rhondda Cynon Taf ddechrau mis Awst 2024.

Wel, mae Eisteddfod Mr Urdd yn parhau i deithio, a bydd Tŷ Tredegar yng Nghasnewydd yn croesawu Cymru gyfan ym mis Mai 2027.

Wrth groesawu Eisteddfod i ardal, daw'r her – codi arian.

Mae siroedd Caerffili, Mynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent a Thorfaen yn ffurfio Rhanbarth Gwent, ac er bod Pwyllgor Gwaith wedi ei sefydlu (dan gadeiryddiaeth Elin Maher a 5 is -Gadeirydd i gynrychioli pob sir) mae hi wedi dod i'r amlwg yn fuan iawn nad yw'r gefnogaeth o'r mannau 'traddodiadol' mor amlwg a chadarn.

Felly apêl sydd gen i, i ofyn a fyddech chi'n fodlon ystyried cefnogi'r gronfa leol trwy gyfrannu £5 y mis (£1.25 yr wythnos) gyda rhodd gymorth drwy 'Just Giving' y mae'r Urdd wedi ei sefydlu. Mae croeso i chi gyfrannu mwy wrth gwrs!




Mae modd gwneud taliad misol drwy'r wefan. A wnewch chi nodi pa Sir hoffech chi ei 'chefnogi' – Caerffili, Mynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent neu Torfaen – ond i'r un man mae'r arian yn mynd yn y pendraw!

Mae gwir angen i ni ymestyn y rhwyd cyn belled â phosibl er mwyn rhoi'r cyfle i drigolion y rhanbarth brofi'r wythnos orau erioed fel ym Mhontypridd fis Awst diwethaf. Y nod a'r gobaith yw y bydd yn rhoi'r cyfle i bobl glywed a mwynhau'r Gymraeg ac yn rhoi'r hyder iddynt ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt.

Os ydych chi'n teimlo gallwch chi gefnogi'r ymgyrch, mae modd i chi ddilyn y ddolen isod, neu gosodwch eich ffon uwchben y côd QR ar y poster fydd yn mynd â chi yn syth i'r wefan.

Diolch yn fawr am eich amser a'ch cefnogaeth!

*Osian Rowlands*
*Is-Gadeirydd ar ran Sir Caerffili, Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen, Rhanbarth Gwent 2027*

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



*Bwrw'r 500 yn Medi*

## Gwilym Dafydd

**Tafwyl**
Ro'n i yno a llawer iawn ohonoch chi hefyd. Miloedd lawer a dweud y gwir. Rwy'n cofio cerdded o babell *Y Dinesydd* i babell Cymraeg i Oedolion ar y prynhawn Sadwrn. Gadael am dri o'r gloch a chymryd chwarter awr i gyrraedd. Taith tair munud fase hi tase ddim cannoedd o bobl yn symud i gyfeiriad y llwyfan mawr.

Un o'r cyntaf welais i ar y bore Sadwrn oedd Alan Iwi o Didcot ger Rhydychen. Enw cyfarwydd yng nghystadleuaeth Pobol y Rhigwm. Chwarae teg iddo am yrru'n gynnar y bore hwnnw, aros am noson a mwynhau gweithgareddau Tafwyl dros y penwythnos. Mae Alan yn y llun o flaen y babell gyda Peter Griffiths, Pentyrch – yn derbyn ei docyn llyfr £10 am ennill cystadleuaeth mis Mehefin.



Gwerthais i 4 copi caled o rifyn Mehefin ddydd Sadwrn a 6 ddydd Sul. A phawb a brynodd gopi un ai yn siaradwyr newydd neu yn diwtoriaid. Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth.

**Dych chi'n mwynhau jôcs?**
Oes synnwyr digrifwch gyda chi? Bûm am gyfnod yn cyhoeddi rhai o jôcs Huw James, y cyfreithiwr, gynt o Aberystwyth. Ond mae'n ymddangos bod y cyfnod hwnnw wedi dod i ben. Tybed oes rhywun allan yno â'r gallu i ddilyn ôl traed Huw, awdur llyfr jôcs enwog sy'n dal i fod yn fargen am £3.95?

Rwy'n gwybod bod rhywun fel Malcolm Thomas, Yr Eglwys Newydd, wedi mwynhau a gwerthfawrogi jôcs Huw – mae e wedi rhoi gwên ar ein hwynebau sawl gwaith ar foreau Mawrth yn awr Clonc / Cylch Ebeneser yng Nghaffi Cylchfan, yn adrodd nifer o storïau ac atgofion doniol.

**Teithio o'r Gogledd**
Y bore Sadwrn o'r blaen teithiodd Eirian a fi nôl o Ynys Môn i Gaerdydd ac wedi ychydig dros ddeugain o filltiroedd, arhoson ni ym Mhorthmadog am goffi a danteithion.

O flaen Tesco sylwais ar ddwy wraig yn sefyll ger eu stondin – mae'n olygfa ddigon cyffredin yma yng nghanol y ddinas oherwydd gwelaf hwy wrth gerdded o Glonc i Glonc ar ddydd Iau yn Heol y Frenhines a'r Ais. Tystion Jehofa.

Holais y ddwy wraig ym Mhorthmadog a oeddent yn siarad Cymraeg. Dim problem. Yna dyma fi'n dechrau canu dwy linell o emyn o'r hen ddyddiau sy'n gyfarwydd i fi:

'Wrth orsedd y Jehofa mawr, plyged trigolion byd i lawr…' Yr emyn-dôn yw'r Hen Ganfed.

Dych chi siwr o fod yn gwybod hwn, meddwn wrthynt – dyma un o emynau Tystion Jehofa. Wel doedd dim syniad ganddynt a doedd Eirian wrth fy ymyl ddim yn gwybod ble i edrych!

Meddyliais yn ddiweddarach wrth gladdu teisen arall yn hen siop a chaffi Kerfoots ger llaw Siop Eifionydd – tybed ydy Tystion Jehofa yn canu emynau mewn gwasanaethau? Tybed a oes Tystion Jehofa yn darllen *Y Dinesydd*?

**Llys y Graig ger Pentraeth,**
Anodd credu hyn ond y diwrnod o'r blaen bûm yn Nhraeth Coch ger Benllech am y tro cyntaf yn fy mywyd. Mae ein cyfnod ni o deithio lan a lawr i Ynys Môn ers 1987 fwy na thebyg yn dirwyn i ben – yn enwedig os llwyddwn ni i werthu'r hen dŷ teuluol ger Amlwch.

Pan welais i Draeth Coch yn ddiweddar, roeddwn yn benderfynol o ddarganfod y tŷ lle bu fy rhieni yn byw ar gychwyn eu bywyd priodasol, 1952-55, pan oedd fy nhad ar gychwyn ei weinidogaeth fel gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn Moreia Pentraeth a Seion Llanfair M.E. Wedi gwneud ymholiadau lleol daethon ni ar draws yr hen gartref Llys y Graig – clamp o dŷ a rannwyd yn ddwy yn 1952 yn ôl pob sôn. Mae e ar y dde ar y ffordd rhwng sgwâr Pentraeth a'r ffordd gul sy'n arwain i lan y môr. Ron i'n hapus iawn i'w weld oherwydd lai na chwe mis ar ôl i fy rhieni symud lawr i Goleg y Bedyddwyr, Heol Richmond, ces i fy ngeni. Efallai taw Gog ydw i wedi'r cyfan fel Eirian!

**Bwrw'r 500 yn rhifyn mis Medi**

Hoffem dynnu eich sylw at y ffaith taw rhifyn mis Medi fydd y 500fed Dinesydd!

Er taw'r Dinesydd yw papur bro hynaf Cymru yn y cyfnod diweddar, nid ni yw'r cyntaf i ddathlu'r 500.

Bydd cyfle yn y rhifyn nesaf i edrych yn ôl ychydig ac wrth gwrs i edrych ymlaen.

Hoffech chi ymddangos yn y rhifyn arbennig hwn? Ar wahan i'r golofn reolaidd, Pobol y Rhigwm, bydd croeso i'r beirdd lunio pennill neu ddau o gyfarchiad ac eraill i lunio cyfarchion mwy cyffredinol – tua 50 gair. A beth am ambell lun – sut olwg oedd arnoch tybed yn 1973 pan aned Y Dinesydd? Edrychwn ymlaen fel golygyddion mis Medi i dderbyn gair gennych – diolch.

*Gwilym ac Eirian Dafydd*

# Ysgol y Berllan Deg

**Pencampwyr Cystadleuaeth Lego 2025**
Llongyfarchiadau i chwe disgybl o Flwyddyn 6 wnaeth gystadlu yng nhystadleuaeth Lego 'League' 2025. Dangoswyd sgiliau cyd-weithio, trafod a datrys problemau penigamp gan bob un ohonynt gan lwyddo i guro'r gwrthwynebwyr am yr ail flwyddyn yn olynol. Tipyn o gamp yn wir! Llongyfarchiadau mawr iddynt.

**Mabolgampau**
Cafwyd bore o gystadlu brwd gydag amrywiaeth o gystadlaethau yn y Cyfnod Sylfaen ac yn yr adran Iau gyda'r plant yn mwynhau cystadlu yn eu llysoedd. Llongyfarchiadau i dîm Teifi a ddaeth yn fuddugol.

**Fideo i Hyrwyddo'r Ysgol**
Mae Adam Amor wedi gweithio gyda disgyblion Blwyddyn 3 i greu fideo yn hyrwyddo'r ysgol. Rhannwyd holiadur gyda rhieni i ddarganfod pam eu bod wedi dewis Addysg Gymraeg i'w plant. Bu'r disgyblion yn rhan o'r broses gynllunio, sgripio, actio a ffilmio. Bu'n brofiad diddorol a hwylus iawn.

**Tafwyl**
Perfformiodd disgyblion o Flwyddyn 2 ar y llwyfan ym mhabell yr ysgolion ar Ddydd Sul, 15 Mehefin. Bu'n brofiad arbennig i'r disgyblion ac i'r rhieni.

**Ymweliadau**
Mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn gyda nifer o flynyddoedd yn cael cyfleoedd i fynd ar ymweliadau gwerth chweil. Mwynhaodd y Dosbarth Derbyn ymweld â fferm Cefn Mabli fel rhan o'i thema 'Y Fferm' a theithiodd Blwyddyn 2 i Sŵ Arch Noah er mwyn gweld anifeilaid saffari - profiad arbennig iawn. Bu Blwyddyn 3 yn ddigon ffodus i ddatblygu eu sgiliau nofio am wythnos yn y MET yng Nghaerdydd.

Ar brynhawn dydd Iau, 26 Mehefin daeth peilot i siarad â phlant Blwyddyn 3 i sôn am ei waith gan fod y disgyblion yn dysgu am y thema 'Teithio'. Roedd y plant wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau ac i ddysgu am ei waith.

**Gwersi Cymraeg i'r Teulu**
Mae gwersi Cymraeg i'r Teulu wedi dechrau bob bore Iau yn y neuadd ac yn Y Berllan Fechan. Mae'r rhieni yn cael eu cyflwyno i eirfa a gweithgareddau Cymraeg ac wedyn mae eu plant yn ymuno â nhw i gyflawni gweithgaredd perthnasol.


*Pencampwyr Lego*


*Rhai o'r Dosbarth Derbyn*



*Blwyddyn 2*

---

# Ysgol Pencae

**Tymor Prysur a Llawn Antur**
Mae wedi bod yn dymor hynod o brysur ac anturus yn Ysgol Pencae, gyda llu o weithgareddau cyffrous wedi'u mwynhau gan ein disgyblion.

Bu Blwyddyn 4 ar ymweliad preswyl i Faes y Fron, ac roedd y profiadau yno yn wirioneddol fythgofiadwy. Roedd cerdded i fyny mynydd Cribarth, crwydro'r ceunant a dringo'r graig ymhlith y llu o weithgareddau heriol y gwnaeth y plant eu mwynhau'n fawr.

Yn ogystal, aeth Blwyddyn 3 ar eu taith breswyl gyntaf erioed i Sir Benfro, gan aros ym Mhentre Ifan ger Trefdraeth. Ymwelon nhw â Chastell Henllys ac aethon nhw am dro i Garnedd Meibion Owen i fwynhau golygfeydd godidog ar draws cefn gwlad bendigedig Sir Benfro.

Bu Blwyddyn 6 hefyd yn ffodus iawn i fynd ar ymweliad i Ŵyl y Gelli, lle cawsant gyfle i fynychu amrywiaeth o sgyrsiau ysbrydoledig gan awduron megis Anni Llŷn, Patriece Lawrence ac MC Grammar. Roedd y profiad yn gyfle gwych i ymgolli ym myd llenyddiaeth ac i gael cipolwg ar fywyd awduron go iawn.

Cafodd tîm o ddisgyblion Blwyddyn 6 y cyfle i gynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth Deallusrwydd Artiffisial ar draws Caerdydd. Fe ddyfeision nhw syniad ar gyfer ap newydd, gan gynllunio a chyflwyno'u syniadau yn hyderus o flaen panel o feirniaid.

Llongyfarchiadau i Mr Aled Thomas a'i wraig ar enedigaeth eu mab, Efan! Rydym yn falch o ddweud bod y teulu bach yn setlo'n hapus a dedwydd! Croeso Efan!

# Ysgol Glan Morfa

**Sesiynau Blasu Taekwondo**
Cymrodd ein disgyblion ran mewn sesiwn blasu Taekwondo am ddim dan arweiniad Richard Taylor. Cafodd pawb amser gwych yn dysgu crefftau ymladd newydd!

**Tafwyl**
Llongyfarchiadau i ddisgyblion blynyddoedd 1,2,3 a 4



ar eu perfformiad arbennig iawn yn Tafwyl. Roedd disgyblion blwyddyn 4 wedi cydberfformio cân arbennig gydag Ysgol St Albans a oedd wedi ei ariannu gan Fenter Caerdydd. Diolch arbennig hefyd i'r cerddor Stacey Blythe am ei holl waith yn ysgrifennu'r gân a chyfeilio ar y dydd. Cafodd pawb amser gwych o flaen torf fawr yn Tafwyl!

**Mabolgampau**
Mae'r tymor mabolgampau wedi cyrraedd. Mae'r holl ddisgyblion wedi gwneud eu gorau glas ac wedi mwynhau cymryd rhan. Hoffwn ddiolch i'r holl staff am eu gwaith yn paratoi'r disgyblion.

**Rydym yn Ysgol Noddfa**
Mae'n bleser gennym rannu'r newyddion cyffrous ein bod wedi derbyn statws Ysgol Noddfa. Mae'r wobr genedlaethol hon yn cydnabod ysgolion sy'n ymrwymedig i greu amgylchedd diogel, croesawgar ac eangfrydig i bawb, yn enwedig i'r rhai sy'n ceisio noddfa. Mae'n adlewyrchu ein hymdrechion parhaus i feithrin tosturi, dealltwriaeth a pherthyn yn ein cymuned ysgol. Hoffem ddiolch o galon i'n Criw Cynhwysiant arbennig, sydd wedi chwarae rhan allweddol yn ennill y wobr hon. Diolch arbennig hefyd i Miss Jenkins a Miss Pippen am eu harweinyddiaeth ragorol a'u hymroddiad trwy gydol y daith hon. Gyda'n gilydd, rydym yn falch o fod yn fan diogel a chroesawgar i bawb.

**Wythnos Ffoaduriaid**
Fe wnaethon ni ddathlu eto eleni Wythnos y Ffoaduriaid sydd yn rhoi amser i fyfyrio, dysgu, a sefyll gyda'n gilydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, o ganlyniad i'n perthynas arbennig gyda Chanolfan Oasis yn Sblot, rydym wedi croesawu mwy o ddisgyblion ffoaduriaid nag erioed o'r blaen, pob un yn dod â straeon, diwylliannau a chryfderau unigryw. Mae ein hysgol yn gyfoethocach o'r herwydd. I nodi'r wythnos, cymerodd y disgyblion ran mewn sesiynau adrodd straeon, diwrnodau diwylliannol, prosiectau celf a dysgu ieithoedd. Yr uchafbwynt oedd ein Coeden Groeso fel symbol o obaith a pherthyn, wedi'i hamgylchynu gan negeseuon mewn sawl iaith a siaredir yn ein hysgol. Atgoffodd yr wythnos hon ni nad lle yn unig yw cartref, ond teimlad rydyn ni'n ei greu gyda'n gilydd. Rydym yn falch o fod yn ysgol lle mae croeso, dathliad a chefnogaeth i bawb.

**Llwyddiant Rygbi**
Llongyfarchiadau mawr i Zak a Jeremiah ar gael eu dewis yn rhan o garfan rygbi Ysgolion Caerdydd. Dyma'r tro cyntaf ers sawl blwyddyn bellach i ddisgyblion o'r ysgol gael eu dewis ac rydym yn hynod falch ohonynt.



# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Yn ôl ym Mis Mai, daeth tymor arall o'n ciniawau cynyddol boblogaidd i ben mewn dull tra gwahanol. Yn lle'r cyflwyniad arferol, cafwyd perfformiad campus gan ein siaradwraig wadd, seren y theatr a byd y celfyddydau, Ffion Dafis. Dechreuodd gan ailgreu ymson wnaeth amlygu ystod llawn ei doniau dramatig. Dilynwyd hyn gan ddarlleniad o'i gwaith cyhoeddedig a chipolwg ar yr hyn sydd i ddod yn y dyfodol. Swynwyd y ciniawyr i gyd gan angerdd ac emosiwn yr artist.

Rhoddodd y noson gyfle i selogion y cylch fynegi eu cydnabyddiaeth i Wyn Rees, ein llywydd ymadawol, am ei waith diflino, drwy gydol y tymor, er mwyn sicrhau rhaglen ardderchog ac amrywiol. Yn ei dro, diolchodd Wyn i aelodau'r cylch am eu cefnogaeth dros y flwyddyn, cyn iddo drosglwyddo medal y llywydd i Carys Tudor, y fenyw gyntaf i lenwi'r swydd yn hanes y Cylch.

Mae'n briodol iawn bod yr anrhydedd hon yn disgyn i Carys 75 mlynedd ers sefydlu'r Cylch ym 1951. Bydd ein cinio, fis Mawrth nesaf, yn cael ei neilltuo i nodi'r garreg filltir hanesyddol hon.

Yn y cyfamser, bydd ein tymor nesaf o giniawa'n cychwyn ar Nos Lun, 6 Hydref, yn ein lleoliad arferol, Gwesty'r New House, Heol y Ddraenen. Am ragor o wybodaeth, cysyllter â Paul Morgan gan anfon neges e-bost at cylch.cinio@gmail.com.



*Wyn Rees, Carys Tudor a Ffion Dafis*

# Michael Jones (1943–2025)

Gyda thristwch a diolchgarwch, cofiwn am fywyd eithriadol Michael Jones, a fu farw ar 16eg o Fai – cyfreithiwr blaenllaw, ymgyrchydd dros hawliau iaith ac addysg, llywodraethwr ymroddgar, blaenor ffyddlon, dyn teulu cariadus a balch.

Ganed Michael yn Nhondu a'i fagu yn Sgiwen gan ei fam-gu, Bessie, ar ôl i'w fam ddioddef polio. Llwyddodd yn academaidd, gan astudio'r gyfraith yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, ac yna dychwelyd i Gymru a Chaerdydd lle bu'n allweddol yn natblygiad cwmni Hugh James, Jones and Jenkins – bellach y cwmni cyfreithiol mwyaf yng Nghymru.

Fel twrnai, bu'n eiriolwr o fri, ac yn un o'r cyntaf yng Nghymru â hawliau cynrychiolaeth gerbron y llysoedd uwch. Roedd yn gyfreithiwr a oedd yn defnyddio'r gyfraith nid er mwyn ennill dadl, ond er mwyn diogelu hawliau pobl gyffredin – y rhai nad oedd gan lawer ohonynt lais: rhieni, plant a phrotestwyr.

Y tu hwnt i'w yrfa, roedd yn un o gewri addysg Gymraeg: cyfreithiwr ac eiriolwr Rhieni dros Addysg Gymraeg; bu'n llywodraethwr Ysgol Glantaf am bron i bedwar degawd, a lladmerydd cryf dros hawliau plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Urddwyd ef gan yr Orsedd am ei waith diflino.

Roedd yn ŵr teuluol, yn gogydd brwd ac yn hoff o deithio – gan gynnwys rheilffyrdd enwog y byd. Roedd ei gariad at ei wraig, y diweddar Ethni Jones, ei blant a'i wyrion yn ganolog i'w fywyd.

I nifer, mae addysg cyfrwng Cymraeg yn rhywbeth a gymerwn yn ganiataol. Fel rhieni, mae ein dyled, felly, yn fawr iddo am ei waith dygn yn arwain y ffordd.

I nifer, mae'r arfer o fynychu capel yn llai cyffredin, ond parhaodd Michael yn aelod ac yn flaenor ffyddlon a chadarn i Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar hyd ei oes. Fel achos, mae ein dyled yn fawr iddo am ei gyfraniad gwerthfawr.

Ar ran yr eglwys honno a chymuned addysg Gymraeg, diolchwn am ei ffydd, ei ysgolheictod, a'i gariad at iaith a chenedl. Byddwn yn gweld ei eisiau yn fawr.

*Thomas Ellis Williams*
*Arweinydd Eglwys y Crwys*

# Michael Jones a RhAG

Ga i gydymdeimlo'n ddwys â theulu Michael yn eich colled. Yn eich galar rwy'n gobeithio bod modd i chi gael cysur o wybod am y cyfraniad enfawr wnaeth Michael dros addysg Gymraeg.

Un *cause célèbre* yn achos Michael oedd buddugoliaeth Dafydd Hywel yr actor a Betty ei wraig yn yr uchel lys yn Llundain. Roedd Cyngor De Morgannwg wedi gwrthod i'w merch fynd i Ysgol Coed-y-gof, lle roedd eu mab. Pan fynnon nhw anfon eu merch yno, rhybuddiodd y Sir ef y gallen nhw gymryd y plentyn i ofal, a charcharu Dafydd. Wedi ennill yr achos yn yr uchel lys, meddai Michael yn ddiymhongar, 'Yn hyn oll yr oedd Dafydd Hywel wedi cael cefnogaeth Rhieni dros Addysg Gymraeg a'u cyfreithiwr'. Dyma ddywedodd Dafydd Hywel amdano: "Petai cwmni theatr yng Nghymru wedi bwrw ati i greu drama mas o'r sefyllfa, yna'n sicr un o brif gymeriadau'r cynhyrchiad fydde'r cyfreithiwr ac un o hoelion wyth y mudiad Rhieni Dros Addysg Gymraeg, Mr Michael Jones. Fe brofodd ei hun yn arwr ac yn sant. Ro'dd e yno ar ein cyfer ddydd a nos, yn cynghori'n ddoeth ac yn ein hargyhoeddi y bydde safiad y ddou ohonom, yn y pen draw, yn gweddnewid polisïau'r sir ar gyfer yr holl rieni o'dd yn dymuno addysg trwy gyfrwng y Gymraeg i'w plant."

Ac fel yna y gwnaeth Michael gyda nifer di-ri o rieni ar hyd y blynyddoedd. Yn ddiweddar byddai'n cynghori Elin Maher, Cyfarwyddwr Cenedlaethol RhAG, gan ennill apeliadau yn erbyn penderfyniadau siroedd i wrthod lle i blant mewn ysgolion Cymraeg ar draws Cymru. Byddai Michael yn gwneud hyn gydag awdurdod ac arddeliad, heb dynnu sylw ato'i hun a'i waith rhyfeddol.

Roedd cael addysg Gymraeg i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn un arall o frwydrau mawr Michael, wrth iddo fe ac Ethni geisio cael Cyngor De Morgannwg i gynnig darpariaeth addas i'w mab Garmon, ac i blant eraill yn y ddinas. Gydag ymdrech llwyddon nhw i gael y Sir i gydnabod uned yn Ysgol Coed-y-gof, a sefydlwyd uned maes o law yn Ysgol Glantaf. Rhoddodd Michael gyngor i rieni ledled y wlad, rhai'n talu miloedd mewn tribiwnlysoedd, a bellach mae'r egwyddor o ddarparu addysg anghenion dysgu arbennig yn y Gymraeg wedi'i derbyn, ond mae ffordd bell cyn y caiff hyn ei gweithredu'n drylwyr.

Cyfraniad mawr arall oedd ei gyfarfodydd gyda chyfarwyddwyr addysg gwahanol siroedd. Fel cadeirydd ac ysgrifennydd cenedlaethol RhAG, byddai'n tynnu rhaglen drwyadl i fynd o gwmpas siroedd, ac yn defnyddio ei awdurdod cyfreithiol i ddwyn perswâd ar y cyfarwyddwyr a'u swyddogion, oedd yn aml yn ddifater neu'n wrthwynebus. Gyda'i feddwl miniog, a'i gof am ddeddfau, sefyllfaoedd a niferoedd disgyblion, ni fyddai'n colli'r un ddadl. Rwy'n cofio mynd gyda fe ac Ethni i weld rhai o'r rhain, yn Sir Benfro, a Chastell-nedd, sir yr oedd Michael yn poeni'n fawr amdani, ac yntau'n frodor o Sgiwen. Os na ddaeth llwyddiant ar unwaith yn dilyn y cyfarfodydd hyn, roedd y ddadl wedi ei hennill, a daeth ysgolion Cymraeg i fannau fel Dinbych-y-pysgod, ac ie, Mynachlog-nedd ger Sgiwen.

Byddai Michael yn casglu gwybodaeth fanwl am niferoedd disgyblion a fyddai'n mynychu ysgolion Caerdydd a'r cymoedd yn arbennig, ac yn seilio dadleuon RhAG ar y twf cyson. Un cyfraniad mawr, pan oedd Chris Jones yn gyfarwyddwr addysg yng Nghaerdydd, oedd trafod sut y gellid sefydlu ysgolion cychwynnol, a fyddai'n tyfu'n ysgolion cyflawn gydag amser. Cyhoeddodd Michael bapur ar hyn a oedd yn fodel i siroedd eraill.

Rydyn ni heddiw'n gallu cofio llais Michael, teimlo grym ei bersonoliaeth, ei wydnwch a'i ddyfalbarhad, ei eofndra, a'i hyder digwestiwn yng nghyfiawnder yr achos. Roedd yn gawr, ac yn un o gymwynaswyr mawr y Gymraeg yn ein cyfnod.

*Heini Gruffudd*

# Y DIGWYDDIADUR

## Gorffennaf

**Llun, 14 Gorffennaf**
Menter Iaith Bro Morgannwg. Parti Plant y Fro, ym Mhafiliwn Pier Penarth am 10.00am. Canu, dawnsio a chrefft. Addas i blant 0–4oed. Am ddim. Manylion pellach: https://menterbromorgannwg.cymru/event/parti-plant-y-fro-cy

**Iau, 17 Gorffennaf**
'Dros Gymru'n Gwlad: Hanes Sefydlu Plaid Cymru'. Dewch i wrando ar Arwel Vittle a Gwen Gruffudd yn trafod eu llyfr newydd gyda Karl Davies yn Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd, rhwng 6.30pm a 9.00pm, mewn achlysur a noddir gan Mabon ap Gwynfor AS ac a drefnir gan Gymdeithas Hanes Plaid Cymru. Bydd cyfle i brynu copi o'r llyfr wedi ei lofnodi ganddynt. Does dim tâl mynediad, ond bydd angen bwcio lle ymlaen llaw drwy Eventbrite: https://www.eventbrite.com/e/lansio-llyfr-dros-gymrun-gwlad-hanes-sefydlu-plaid-cymru-book-launch-tickets-1363982270689?aff=oddtdtcreator

**Llun, 21 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Paned a sgwrs yn Y Deri, Rhiwbina (CF14 6UH), am 11.00am. Cyfle i gael sgwrs a chymdeithasu. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 26 Gorffennaf**
Cymdeithas Cymru-Ariannin. Dathlu Gŵyl y Glaniad yng Nghlwb Golff Radur (CF15 8BS), yn dechrau am ganol dydd. Adloniant gan Brigyn. Pris: £25 i oedolion; £15 i blant. Manylion pellach: https://www.eventbrite.co.uk/e/gwyl-y-glaniad-2025-tickets-1411280490939

**Sul, 27 Gorffennaf**
Menter Caerdydd. Taith hanes ym Mhontypridd yng nghwmni Wil Morus Jones am 2.00pm. Manylion pellach gan Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

## Awst

**Mawrth, 12 Awst**
Menter Caerdydd. Ymweliad â Chronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien am 6.00pm. Manylion pellach gan Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Llun, 18 Awst**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Paned a sgwrs yn Y Deri, Rhiwbina (CF14 6UH), am 11.00am. Cyfle i gael sgwrs a chymdeithasu. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 19 Awst**
Menter Caerdydd. Cerdded a Chlonc yn y Fro am 6.00pm. Manylion pellach gan Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Sadwrn–Sul, 30–31 Awst**
Trefnir pererindod i Bantycelyn, gyda sgwrs am Feddygon Myddfai ar y Sadwrn ac oedfa yn Soar-y-mynydd ar y Sul am 2.00pm. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach gan Gwilym Wyn: serenagwill@btinternet.com

## Medi

**Sadwrn, 6 Medi**
Taith gwylio adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd, yn dechrau am 10.00am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com

**Mercher, 10 Medi**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Noson yng nghwmni Mei Gwynedd a grŵp o chwaraewyr yr ukelele yn Ysgoldy Eglwys Crist, Radur am 7.30pm. Hon fydd noson gyntaf y tymor newydd a bydd croeso mawr i aelodau hen a newydd.

**Llun, 15 Medi**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Bydd Eleri Twynog Davies yn siarad am ei chwmni drama 'Mewn Cymeriad' yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Gwyneth Stephens (penrhiwalltycnap@gmail.com). Croeso i aelodau hen a newydd i gyfarfod cyntaf y tymor newydd.

**Llun, 22 Medi**
Menter Caerdydd. 'Sgwrs y Mis' gan Dr Sara Elin Roberts ar y testun 'Cyd-fyw yng Nghymru'r Oesoedd Canol: Cyfraith Hywel Dda' Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 am y flwyddyn. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Gwener–Sadwrn, 26–27 Medi**
Clwb Canna yn cyflwyno Bwncath yn y Clwb Rhyddfrydol, Treganna, am 8.00pm (drysau'n agor am 7.30pm). Tocynnau: £20 o siop Caban, Pontcanna, neu drwy ticketsource.co.uk/clwbcanna.

**Gwener, 26 Medi – Gwener, 3 Hydref**
Theatr Sherman a Frân Wen yn cyflwyno 'Dynolwaith' gan Leo Drayton, yn Theatr Sherman. Manylion pellach: https://www.shermantheatre.co.uk/event/dynolwaith/?lang=cy neu ffoniwch 029-2064-6900.

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James, 16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2AJ (029-2062-8754; JamesEW@caerdydd.ac.uk).**

---

**Diolch yn fawr**

**Dymuna pwyllgor *Y Dinesydd* ddiolch yn fawr iawn i Ferched y Wawr Bro Radur am eu rhodd hael tuag at gynnal ein papur bro.**

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**Anna Waring, Jane Crewdson ac Elfed**

Yn y ddau rifyn diwethaf o'r *Dinesydd*, buom yn trafod bywyd a gwaith Mary Owen (1796–1875), un o emynyddesau amlycaf y Gymraeg ac awdur yr emyn poblogaidd 'Dyma gariad, pwy a'i traetha?' Treuliodd Mary y rhan fwyaf o'i hoes ym mhen gorllewinol Bro Morgannwg – yn Llansawel (*Briton Ferry*), Castell-nedd a Chwmafan – ond fel y nodwyd yn ein herthygl yn rhifyn Rhagfyr 2023 (sydd, fel erthyglau eraill cyfres 'Llys a Llan', i'w darllen yn electronig yma: http://dinesydd.cymru/teithiau/), roedd emynyddes amlwg arall yn byw yng nghyffiniau Castell-nedd tua'r un adeg â Mary Owen.

Anna Letitia Waring oedd ei henw. Perthynai i genhedlaeth iau na Mary, a gwahaniaeth arall rhyngddynt oedd mai fel emynyddes Saesneg y daeth Anna i amlygrwydd. Arwydd o'i phoblogrwydd fel awdur yn ei dydd yw'r ffaith i'r casgliad o'i cherddi a'i hemynau, *Hymns and Meditations*, a ymddangosodd yn wreiddiol yn 1850, gael ei ailgyhoeddi droeon yn ystod ei hoes, yn America yn ogystal ag ym Mhrydain; ac mae ei hemyn 'In heavenly love abiding' yn parhau yn boblogaidd heddiw. Cyfieithwyd yr emyn hwnnw i'r Gymraeg gan Hywel M. Griffiths (1949–2005), brodor o Abertawe a fu am flynyddoedd yn aelod blaenllaw yn Eglwys y Crwys yng Nghaerdydd, a gellir darllen ei gyfieithiad o emyn Anna Waring yn rhifyn Rhagfyr 2023 o'r *Dinesydd*.

Ganed Anna yng Nghastell-nedd yn 1823, ac yno y magwyd hi nes iddi symud i Gaerdydd yn 1835, pan benodwyd ei thad, Elijah Waring (cofiannydd Iolo Morganwg), yn rheolwr banc yno. Erbyn 1843, roedd hi, ei rhieni a rhai o'r plant eraill yn byw yn Clifton ger Bryste, ond cadwasant gysylltiad cyson â'r teulu ehangach ym Morgannwg, gan ddychwelyd i fyw i gyffiniau Castell-nedd yn 1855, er i Anna dreulio cyfran helaeth o weddill ei hoes yn ardal Clifton a marw yno yn 1910.

Perthynai Anna i deulu hynod ddylanwadol o Grynwyr o Gernyw, a symudodd i ardal Castell-nedd tua dechrau'r 19eg ganrif pan ddaeth ei thad-cu, Peter Price (1739–1821), yn rheolwr Gwaith Haearn Mynachlog Nedd. Ffynnodd y gwaith hwnnw o dan ei law, a pharhaodd i ffynnu o dan ei fab, Joseph Tregelles Price (1784–1854), a'i dilynodd yn rheolwr yn 1818. O dan eu harweiniad, aeth y cwmni ati i gynhyrchu offer a pheiriannau o bob math, ac roedd ansawdd cynnyrch Gwaith Haearn Mynachlog Nedd mor uchel nes ennill bri rhyngwladol a marchnadoedd mewn llawer rhan o'r byd.

Roedd y ddau hefyd yn nodedig am eu sêl dros waith dyngarol. Roedd lles eu gweithwyr yn uchel iawn ar agenda'r ddau. Roedd y ddau hefyd yn amlwg fel diwygwyr cymdeithasol. Ond nid nhw o bell ffordd oedd yr unig aelodau o'u teulu, agos ac estynedig, i wneud cyfraniadau gwerthfawr mewn meysydd dyngarol ac fel diwygwyr cymdeithasol; a bu nifer o'r teulu hefyd yn amlwg eu cyfraniad i fyd addysg, crefydd, llên a hynafiaethau.

Rhoddwyd cryn sylw i sawl aelod o'r teulu mewn erthyglau yn y gyfres 'Llys a Llan' yn ystod 2024. Gobeithio i'r erthyglau hynny ddangos pa mor nodedig oedd y teulu hwnnw i lawer cyfeiriad; ac un peth nodedig amdanynt oedd fod yr aelodau benywaidd yr un mor amlwg eu cyfraniad â'r rhai gwrywaidd.

Enwyd Anna Waring ar ôl ei mam-gu, Anna Price (1759–1846), gwraig Peter Price – Anna Tregelles cyn iddi briodi. Roedd Anna Price yn gymeriad cryf a galluog. Aeth un hanesydd mor bell â'i galw'n 'one of the most remarkable women of her time'. Roedd yn arweinydd amlwg ymhlith Crynwyr de Cymru, a daeth ei merched Junia a Christiana hwythau yn weinidogion gyda'r Crynwyr. Roedd y tair hefyd, fel llawer aelod arall o'u teulu, yn amlwg eu hymdrechion dros achosion dyngarol ac elusennol o bob math. Yn eu plith, gellid enwi'r mudiad i ddileu caethwasiaeth, y mudiad heddwch, y mudiad dirwest, y mudiad cenhadol a gwaith Cymdeithas y Beibl; a gwelwyd aelodau o'r teulu yn frwd eu cefnogaeth hefyd i ymdrechion i hyrwyddo addysg rad i'r tlodion ac amodau gwell i weithwyr, ac i'r ymgyrchoedd o blaid diwygio seneddol a rhyddid sifil a chrefyddol. Fe'u gwelwyd hefyd yn ymweld â chleifion a charcharorion ac yn gwrthwynebu gweinyddu'r gosb eithaf, fel yn achos Dic Penderyn.

Pan drown at fyd llenydda a chyhoeddi, gwelwn nad Anna Waring oedd yr unig aelod benywaidd o'i theulu i fentro i'r byd hwnnw. Fel y nodwyd yn rhifyn Ebrill 2024 o'r *Dinesydd*, er enghraifft, cyhoeddodd Sarah Waring (1791–1871), chwaer ei thad, Elijah, fwy nag un gyfrol o ysgrifau a cherddi. Ganed Sarah ac Elijah Waring i deulu o Grynwyr yn ardal Alton yn Hampshire, ond ymddiddorodd Elijah yn fawr yn niwylliant a hanes Cymru wedi iddo symud i dde Cymru tua 1811. Ac er i Sarah barhau i fyw yn Alton, gellid tybio mai ei brawd oedd yn gyfrifol ei bod wedi cystadlu yn yr Eisteddfod Daleithiol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Awst 1834, gan ennill cystadleuaeth yno â'i baled Saesneg am ddrylliad y llong *Frolic* oddi ar arfordir Bro Morgannwg ym mis Mawrth 1831.

Mae'n werth crybwyll hefyd, wrth fynd heibio, gyfrol o waith Crynwraig arall o ardal Castell-nedd, sef *Selections from the Papers of Mary Boone* (1817), sy'n cynnwys yn bennaf fyfyrdodau defosiynol, gweddïau a cherddi a ganfuwyd ymhlith ei phapurau wedi iddi farw yn 1816. Roedd hi wedi priodi George Boone o Birmingham yn 1801, ond Mary Rees oedd ei henw cyn priodi ac fe'i ganed yng Nghastell-nedd yn 1778 i deulu o Grynwyr â'u gwreiddiau yn sir Drefaldwyn; a'i brawd, Evan Rees (1791–1821), oedd

Ysgrifennydd cyntaf y Gymdeithas Heddwch y bu gan Joseph Tregelles Price ran mor amlwg yn ei sefydlu yn 1816.

Mae sôn am Birmingham yn arwain yn naturiol at grybwyll cysylltiad annisgwyl rhwng Crynwraig o ganolbarth Lloegr – o Fanceinion yn yr achos hwnnw – ac emynyddiaeth Gymraeg. Jane Crewdson (1808–63) oedd honno. Yn 1836, priododd Grynwr o'r enw Thomas Dillworth Crewdson (1803–69), brodor o Kendal yn Ardal y Llynnoedd a ddaeth maes o law yn gynhyrchydd cotwm ym Manceinion. Ond Fox oedd cyfenw Jane cyn iddi briodi, a deuai o Gernyw, lle roedd ei thad, George Fox (1782–1858), yn rheolwr Ffowndri Perran, ger Aberfala (*Falmouth*). Roedd teuluoedd Jane Crewdson ac Anna Waring yn gyfeillgar iawn, cydweithent yn agos ym myd masnach, ac roeddynt yn perthyn drwy briodas.

Dywedir mai cynnyrch cyfnod o salwch hir oedd emynau a cherddi Jane Crewdson. Cyhoeddwyd nifer ohonynt mewn cyfrol yn dwyn y teitl *"A Little While," and Other Poems* yn 1864, y flwyddyn ar ôl iddi farw. Mae tua dwsin o'i hemynau wedi cyrraedd llyfrau emynau cynulleidfaol, ac un o'r mwyaf poblogaidd ohonynt yw'r emyn saith-pennill, wedi ei ysbrydoli gan Ioan 16:18, a osodwyd ar ddechrau cyfrol 1864. Dyma ei bennill cyntaf:

Oh for the peace which floweth as a river,
  Making life's desert places bloom and smile!
Oh for the faith to grasp heaven's bright "for ever,"
  Amid the shadows of earth's "little while"!

Un o emynwyr amlycaf y Gymraeg yn niwedd y 19eg ganrif a hanner cyntaf yr 20fed ganrif oedd Elfed (H. Elvet Lewis; 1860–1953), un a dreuliodd ei flynyddoedd olaf, o 1940 ymlaen, ym Mhenarth ac yn aelod yn Eglwys Annibynnol Ebeneser yng Nghaerdydd. Un o'i emynau mwyaf adnabyddus yw 'Rho im yr hedd', a gyhoeddwyd gyntaf yn 1895. Roedd yr emyn yn ffrwyth cyfnod digon terfysglyd yn hanes Elfed, ac mae iddo briodas annatod erbyn hyn â'r dôn 'Rhys' gan W. J. Evans (1866–1947), teiliwr o Aberdâr, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1921. Cyfansoddwyd y dôn er cof am ei dad, Rhys Evans (1835–1917), brodor o Rydaman yn wreiddiol, a fu'n amlwg iawn ei gyfraniad i fywyd cerddorol Aberdâr. Mae'n werth ychwanegu hefyd fod mab W. J. Evans, Ifor L. Evans (1897–1952), wedi cyhoeddi dau lyfr defnyddiol ar emynyddiaeth pan oedd yn brifathro Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, sef *Blodau Hyfryd* (1945), detholiad o waith rhai o brif emynwyr Cymru gyda rhagymadrodd a nodiadau, a *Mawl yr Oesoedd* (1951), casgliad o donau ac emynau sy'n olrhain datblygiad emynyddiaeth Gristnogol yn y Gorllewin i lawr trwy'r canrifoedd.

Dyma bennill cyntaf emyn pedwar-pennill Elfed:

Rho im yr hedd, na ŵyr y byd amdano,
  Hedd, nefol hedd, ddaeth trwy anfeidrol loes,
Pan fyddo'r don ar f'enaid gwan yn curo,
  Mae'n dawel gyda'r Iesu wrth y groes.

A dyma ei bennill clo:

O! am yr hedd, sy'n llifo megis afon
  Trwy ddinas Duw, dan gangau'r bywiol bren:
Hedd, wedi'r loes, i dyrfa'r pererinion;
  Heb gwmwl byth na nos – tu hwnt i'r llen.

Roedd Elfed yn hyddysg iawn mewn emynyddiaeth Saesneg, ac er nad yw 'Rho im yr hedd' yn gyfieithiad o emyn Jane Crewdson a'i fod yn datblygu'n wahanol iawn i'w hemyn hi, mae'r ddau emyn ar yr un mesur ac mae llinell gyntaf pennill olaf emyn Elfed yn adleisio llinell agoriadol ei hemyn hi.

Gwelwyd nifer o deulu ehangach Peter ac Anna Price yn treulio cyfnodau yng nghyffiniau Castell-nedd yn sgil eu symudiad hwy a'u plant yno o Gernyw. Yn eu plith, roedd yr ieithydd medrus a'r ysgolhaig beiblaidd, Samuel Prideaux Tregelles (1813–75) – a fu farw yr un flwyddyn â Mary Owen – a'i chwaer, Anna Rebecca Tregelles (1811–85), awdur cyfrol o'r enw *The Ways of the Line* (1858), am rai o'r nafis a fu'n gweithio ar y rheilffordd yn ardal Castell-nedd tua diwedd yr 1840au. Roedd gan S. P. Tregelles gysylltiad ag emynyddiaeth Gymraeg, yn bennaf am iddo ddod yn gyfaill i Eben Fardd (Ebenezer Thomas; 1802–63), awdur yr emyn trawiadol 'O! fy Iesu bendigedig, unig gwmni f'enaid gwan'. Ond hwyrach y daw cyfle i drafod S. P. Tregelles a'i chwaer rywdro arall!

## Merched Plastaf

Llongyfarchiadau mawr i Ferched Plastaf ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr eleni ym Mharc Margam.

Daeth Merched Plastaf i'r brig yn y Grŵp Cerdd Dant Bl 10 a dan 19 oed, a chawsant feirniadaeth wych gan y beirniad. Diolch i Bethan Bryn am y gosodiad hardd. Daeth Ensemble Alys yn ail yn yr Ensemble Lleisiol 14-25 oed i Aelwydydd. A daeth Côr Merched Plastaf i'r brig, gan ennill y fedal aur a'r tlws yn y gystadleuaeth Côr Merched SSA i Aelwydydd, mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn, gyda 12 côr wedi cofrestru i gystadlu. Mae'r rhan fwyaf o'r merched yn yr ysgol o hyd, ac yn cystadlu yn erbyn cantorion sydd yn hŷn na nhw.

Da iawn chi, ferched, a llongyfarchiadau i Caryl am arwain mor gelfydd fel arfer.

A rhaid sôn yn arbennig am Erin Jardine, cyfeilyddes ddawnus y côr, a gafodd Eisteddfod lwyddiannus ei hun ac ennill Ysgoloriaeth yr Urdd 2025. Gwobr gwbl haeddiannol. Llongyfarchiadau mawr Erin.


Ensemble Alys

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org
@MinnyStreet Gweinidog: Y Parchedig Owain Llŷr Evans

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 13 a 20 Gorffennaf. Bydd gweithgaredd i ddiolch i blant a phobl ifanc yr eglwys am gyfoethogi oedfaon y flwyddyn yn dilyn oedfa foreol 20 Gorffennaf. Ddydd Sul, 28 Gorffennaf, y Bnr Edward Morus Jones fydd yn arwain oedfaon y dydd. Yn ystod mis Awst, byddwn yn ymuno â chyfeillion eglwysi Cymraeg y ddinas ac yn crwydro o 'gapel i gapel' fesul Sul. Bydd oedfaon dydd Sul, 17 Awst (9:30 a 18:00) yng Nghapel Minny Street yng ngofal y Parchedig Dyfrig Rees. Croeso i bawb.

**Taith hudol**

Yn ddiweddar, trefnwyd taith i'w chofio gan yr Athro Glyn Jones i ardaloedd Ewias ac Erging gynt, ar y Gororau. Agorwyd llygaid y teithwyr i hanes diddorol ardal a oedd ar un adeg yn Gymraeg ei hiaith. Yn yr eglwys yn Bacton, adroddwyd hanes Blanche Parry a'i chysylltiad â'r Frenhines Elisabeth I. Yna, yn Eglwys y Santes Fair a Dewi Sant, Kilpeck, cyfareddwyd pawb gan ddehongliad y Gweinidog o'r cerfiadau hynod a gwreiddiol o gwmpas y drws deheuol. Cafwyd diwrnod i'r brenin a mawr oedd diolch pawb i'r rhai a fu'n cyfrannu ac yn trefnu.

**Gweithgarwch y mis**

Bydd taith arall ar fws ym mis Gorffennaf – y tro hwn i Fro Morgannwg. Nid yw'n syndod bod y bws yn llawn ers meitin! Bydd cyfle hefyd i fwynhau pryd o fwyd gyda'r hwyr (Koinônia) nos Sul, 20 Gorffennaf. **Priodas**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Sioned Press a Llewelyn Hopwood yn dilyn eu priodas ym Minny Street ddydd Sadwrn, 14 Mehefin.

**Llongyfarchiadau**

Ddiwedd mis Mehefin, daeth ein Gweinidog yn Llywydd Undeb Annibynwyr Cymru yng nghynhadledd flynyddol yr undeb yn Nant Gwrtheyrn. Dymunwn yn dda iddo ar ddechrau dwy flynedd o brofiadau newydd, cyffrous.

## TABERNACL, YR AIS


Bu cerddoriaeth erioed yn rhan ganolog o addoli yn y Tabernacl, ac mae'r adroddiad misol hwn yn canolbwyntio ar un agwedd, sef yr organ. Cewch hanes manwl amdani yn y gyfrol *Eglwys y Tabernacl, Caerdydd: Dathlu 200 Mlynedd*, 2013, gol. John Gwynfor Jones a Denzil John.

Bu cryn wrthwynebiad yn yr eglwys cyn prynu'r organ bib gyntaf, a'i hagor Hydref 2, 1907. Dyma ran o gerdd Robin Gwyndaf am y cefndir:

> Lleisiau a geiriau yn unig gynt
> Fu'n gyfrwng i'r gân.
> Yna i'r Tŷ yn eu tro
> Daeth harmoniam fach a'r 'berdoneg'.
> A diau y credai rhai o'r saint yn siŵr
> I'r Diafol yntau bryd hynny
> Sleifio'n slei i mewn drwy ddrws y cefn!

Ers moderneiddio'r organ am yr ail dro yn 2010 cynhelir datganiadau organ yn rheolaidd, a'u cofnodi yn y *Cronicl*. Dyma ran o adroddiad Geraint Herbert am ddatganiad Christopher Enston, Mai 17.

> Fe berfformiodd raglen ddiddorol a thrawiadol gan ddechrau gyda gweithiau gan Bach cyn symud i Baris ar gyfer yr ail hanner. Yr Adfent oedd y cyntaf o'r *Pum Preliwd Corâl,* dechrau mawreddog gyda crescendo mawr tuag at y diwedd yn arddangos sain gyfoethog yr organ yn dda. Yn *Y Nadolig* 'roedd y gerddoriaeth yn gyflym iawn ar yr allweddellau, gyda'r thema i'w chlywed yn y pedalau. Yn *Yr Esgyniad* cafwyd corâl byrlymus, gyda'r thema yn cael ei throsglwyddo rhwng y pedalau a'r allweddellau.
>
> Guilmant, Lefébure-Wély, Pierné, Jehan Alain a Marcel Dupré oedd arlwy'r ail hanner. Cawsom fynd ar daith i erddi Babilon yn yr Alain, gyda dechreuad dirgel a rhyfedd o ganlyniad i'r harmonïau cromatig tawel. I orffen, darn cromatig arall (Final, Op. 27) yn defnyddio sain lawn yr organ gyda rhythmau trawsacennog oedd yn f'atgoffa o frwydr fawr, darn na fyddai mas o le yn *Star Wars*!


Christopher Enston

Y tro nesaf, Côr y Tabernacl.

## BETHEL, RHIWBEINA

Ar 31 Mai roedd yn bleser i gael ymuno yng ngwasanaeth bedydd Tomos, brawd bach Alffi ac ail ŵyr i Carol a Tony Davies.

Cawsom wasanaeth cymun ar 15 Mehefin yng ngofal ein gweinidog y Parch. Evan Morgan ac ar yr un Sul cynhaliwyd Ysgol Sul yng ngofal Lois.

Roedd y gwasanaeth ar 22 Mehefin dan arweiniad Llinos Howells. Mae Llinos yn ferch i'r diweddar Barch. Tudor Davies oedd yn weinidog gyda'r Wesleiaid ac yn emynydd o fri. Gwelir nifer o'i emynau yn 'Caneuon Ffydd' ac fe gawsom sylwadau diddorol ar nifer ohonynt gan Llinos. Hefyd cawsom wrando ar Sian Francis yn canu sawl un o'r emynau ar CD.

Ar 10 Gorffennaf byddwn yn cynnal Bore Coffi yn y capel a bydd pob elw yn mynd tuag at Ymchwil Canser.

Dymunwn yn dda i Arthur Jones wrth ddathlu pen-blwydd arbennig iawn ar 5 Gorffennaf.

Hefyd dymunwn bob hapusrwydd i Carys a Dilwyn Jones sy'n dathlu eu priodas aur ym mis Awst.

Ni chynhelir gwasanaethau ym Methel yn ystod mis Awst ond bydd y gwasanaethau yn ail-gychwyn ar ddechrau Medi.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon (am 10:30 a.m.)**
**Gorffennaf (dim Ysgol Sul):**
13 – Eirian Dafydd
20 – Cyd-addoli yn y Tabernacl, Efail Isaf [11:00 a.m.]
27 - Cyd-addoli ym Methlehem
**Awst (dim Ysgol Sul):**
3 – Cyd-addoli (Tabernacl, Efail Isaf [11:00 a.m.]
10 – Cyd-addoli ym Methlehem
17 – Cyd-addoli (Tabernacl, Efail Isaf [11:00 a.m.]
24- Cyd-addoli ym Methlehem
31 - Cyd-addoli (Tabernacl, Efail Isaf) [11:00 a.m.]

Cefais bleser anghyffredin yn ddiweddar wrth i griw ohonom droi'n golygon tua Henllan, Ceredigion.

Yno, yn 1940 / 41, yr adeiladwyd Gwersyll Carcharorion Rhyfel Rhif 70 - ar gyfer carcharorion o'r Eidal.

Mae llawer o'r adeiladau wedi diflannu, ond mae 'na nifer ar ôl - yr ysbyty, y gegin a'r golchdy, ac un arall yn arbennig sy'n destun rhyfeddod.

Tra yn y carchar, 'roedd y carcharorion yn cael cyfle i hamddena mewn amryfal ffyrdd, ond yr un peth yr oeddent yn ei ddeisyf oedd modd o allu dod yn nes at eu Duw.

Awgrymwyd y byddent yn gallu hepgor eu defnydd o un cwt Nissen, a'i droi yn eglwys. A dyna a wnaethpwyd – heb offer na deunydd adeiladu parod ar gyfer y dasg.

O'r deunyddiau mwyaf annhebygol, bu iddynt adeiladu cangell, cromen, allorau a bedyddfaen. Buont yn rowlio caniau bwyd yn sgroliau ar gyfer y pileri, a phaentio'r cyfan i edrych fel petae yn farmor gorau Carrara.

Ystyrir y gromen addurniedig yn y 'Capel Eidalwyr' yn gampwaith (fresco o'r 'Swper Olaf') - mae'r lliwiau wedi parhau'n brydferth a chywir hyd heddiw (carcharor o'r enw Mario Ferlito oedd yr arlunydd).

"*Questa e la casa di Dio e la porta del cielo*" yw'r arwyddair uwchben y drws – "*Dyma dy Dduw a phorth y Nefoedd*"

Ewch yno a cheisiwch ddychmygu yr Eidalwyr caeth yn 1944, yn creu eglwys allan o bron ddim byd oherwydd eu taerineb i "*glosio at eu Duw*".



## EGLWYS Y CRWYS

**Cyfarchion**

Llongyfarchiadau i Mrs Rhian Griffiths ar gael ei anrhydeddu yn Aelod o'r Orsedd. Bydd yn derbyn y Wisg Las yn Eisteddfod Wrecsam am ei gwaith ym myd tennis yng Nghymru.

Dymunwn yn dda i'r Dr Bethan Dingley ac Iwan Evans sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Bydd Martha Creese Williams yn treulio cyfnod o flwyddyn yn yr Affrig yn gwneud gwaith gwirfoddol. Pob dymuniad da i ti Martha.

**Cydymdeimlad**

Mae nifer o'n haelodau wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â Mrs Barbara Evans ar golli ei chwaer, Nina, yng Nghaergrawnt. Byddai Nina yn ymuno â theithiau Clwb Teithio '91 y Crwys yn flynyddol.

Mae ein meddyliau hefyd gyda Mr Gerald Latter yn ei brofedigaeth o golli ei fab, Siôn, yn Llundain. Yn enedigol o Fae Colwyn, bu'r Parch. Glyn Tudwal Jones yn athro Ysgol Sul arno ac yn ei gofio'n dda.

Cydymdeimlwn â Mr Winston Roddick yn ei brofedigaeth o golli ei frawd, William Roddick yng Nghaernarfon.

Mae'n meddyliau a'n gweddïau gyda'r aelodau oll yn eu hiraeth.

**Ysgrifennydd Cyhoeddiadau**

Mae ein diolch cynhesaf i Mrs Siân Griffiths am dderbyn y swydd o Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau yn dilyn marwolaeth Mr Michael Jones. Mae Siân yn gyfarwydd iawn â'r gwaith gan iddi ymgymryd â'r dasg am rai blynyddoedd yn y gorffennol.

**Trefn Gwasanaethau mis Medi, am 10.30 a.m. a 6.00 p.m.**

Wedi gwyliau'r haf, bydd croeso i bawb ymuno â ni yn y gwasanaethau.

Medi 7fed Mr Thomas Williams, Oedfa Gymun yn y bore
Medi 14eg Parch. Denzil John
Medi 21ain Bore: Mr Thomas Williams; Hwyr: Ymuno â'n cyfeillion yn Eglwys Minny St.
Medi 28ain Parch. Glyn Tudwal Jones

Dymunwn wyliau haf braf a haeddiannol i holl weithwyr a darllenwyr *Y Dinesydd*.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Roedd hi'n Ŵyl Saint Pedr a Paul ar Sul olaf Mehefin: Pedr, craig yr Eglwys a Paul, apostol i'r Cenhedloedd. Roedd hi'n braf dod ynghyd eto a rhannu sgwrs dros baned wedyn.

Ar ddiwrnod olaf Mehefin, mae calendr yr Eglwys yn anrhydeddu'r Bendigaid Philip Powell yng Nghymru, brodor o sir Frycheiniog a gafodd ei ferthyru yn Tyburn ar y dyddiad hwn yn 1646.

Daeth nifer o ffrindiau at ei gilydd ar 19 Mehefin yn Eglwys Pedr Sant, Y Rhath, ar gyfer gwasanaeth Requiem Pedr MacMullen. Roedd Pedr yn un o ffyddloniaid yr Offeren Gymraeg ers y cychwyn yn Eglwys Cadog Sant, Y Bontfaen yn y 1970au. Athro Cymraeg oedd Mac, fel y byddem yn ei nabod, yn arloeswr addysg Gymraeg yn nhref Penfro ac yn ymwelydd cyson â Phatagonia, lle roedd wrth ei fodd yn hyrwyddo'r iaith. Roedd yn adnabyddus fel dyfarnwr pêl-droed ac yn arddwr brwd yn ei amser hamdden. Byddwn ni'n cofio amdano fel gŵr hoffus, amyneddgar, llawn hwyl, a oedd yn mwynhau difyrru plant wrth eu haddysgu. Gorffwysed mewn Hedd.

Cynhelir Offeren yr Eisteddfod eleni yn Nghadeirlan Wrecsam, Heol Regent, Wrecsam LL11 1RB am 6:00pm nos Iau 7 Awst. Croeso cynnes i bawb.

Bydd Offeren Eglwys Teilo Sant ar 27 Gorffennaf am 4:30pm.

Fydd dim Offeren yn Gymraeg yn Eglwys Teilo Sant ddiwedd mis Awst.

Cyswllt: carys@caerdelyn.com



## EBENESER

**Cwrdd Gweddi**

Ar nos Lun, 2 Mehefin cawsom gyflwyniad gan Siân Wyn Rees am waith Cymdeithas y Beibl. Cyfeiriodd at y ganolfan yn Llanycil a'r ail-frandio sydd wedi digwydd yn llwyddiannus. Soniodd hefyd am lwyddiant Agor y Llyfr sydd bellach â thros 500 o wirfoddolwyr yn mynd o amgylch ysgolion yn cyflwyno straeon Beibaidd. Yn yr Hydref bydd fideos Beiblaidd Lumo yn ymddangos, a Cwrs y Beibl yn y Gymraeg. Bwriadwn gynnal Cwrs y Beibl sy'n parhau am 8 wythnos pan y cawn afael ar y fersiwn newydd. Ar ddiwedd y cyfarfod cafwyd cyfle i weddïo dros Siân a gwaith Cymdeithas y Beibl

**Dosbarth**

Cafwyd cinio hyfryd a hwyliog yn Y Dosbarth, Coleg Caerdydd a'r Fro, ar ddydd Gwener, 6 Mehefin, i godi arian at ein helusen Marie Curie a Hosbis y Ddinas. Llwyddwyd i godi £210 ar gyfer ein helusennau. Mae'n werth i chi drefnu i fynd i gael bwyd yno, unrhyw bryd yn ystod tymor y coleg. Diolch i Thomas a'r tîm fu'n coginio a gweini, i bawb ddaeth ac i'r gweithgor elusen am drefnu, yn enwedig Enfys a Gill.

**Newydd ddyfodiad**

Llongyfarchiadau i Gwilym ac Alice Jeffs ar enedigaeth Gwen Angharad ar 11 Mehefin. Chwaer fach i Nel a Ioan. Pob bendith i'r teulu bach i'r dyfodol.

**Aelodau newydd**

Braint a phleser oedd cael derbyn Tom a Janet Jones yn aelodau newydd i'n plith ar fore Sul, 15 Mehefin. Oherwydd anhwylder iechyd, dim ond ar-lein mae Tom yn gallu ymuno â ni Ar bnawn Sul, 22 Mehefin derbyniwyd Elin Coleman-Nally yn aelod. Bedyddiwyd ei thri mab, Gwion, Noa ac Emrys hefyd. Maen nhw wedi bod yn ffyddlon iawn i Llan Llanast, lle maen nhw'n dweud eu bod yn mwynhau'n fawr iawn bob tro.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Paned a Sgwrs**

Yn ein cyfarfod merched yn ddiweddar daeth Meirion Thomas atom i siarad am waith y gymdeithas genhadol 'European Missionary Fellowship' yn Wcráin. Fel y gwyddom mae'r ymladd rhwng Rwsia ac Wcráin wedi para am dros dair blynedd. Ond er gwaetha'r rhyfel ofnadwy, a'r colli bywyd erchyll sydd yn digwydd, mae'r eglwysi yn profi bendith arbennig. Mae llawer yn mynychu'r oedfaon gan chwilio am gysur yn wyneb y sefyllfa frawychus. Mae llawer wedi dod i ffydd yn Iesu Grist a chael eu bedyddio. Mae rhai o'r gweinidogion wedi ymuno â'r fyddin fel caplaniaid gan estyn cymorth ymarferol ac ysbrydol. Mae'r EMF wedi bod yn anfon allan barseli o ddillad yn ogystal â rhoddion ariannol i helpu yn yr argyfwng. Maent hefyd yn cynorthwyo yn y gwaith o hyfforddi dynion ar gyfer y weinidogaeth gan fod cymaint o alw.

**Lois yn Rhydaman**

Yn ddiweddar bu Lois Adams yn cynorthwyo Eglwys Efengylaidd Rhydaman yn ei hymgyrch 'Gorffennwyd?'. Cafodd yr arddangosfa gelf ei threfnu gan ofyn ì bobl a phlant yr ardal ymateb a dehongli'r teitl 'Gorffennwyd?' drostynt eu hunain a chafwyd ymateb gwych i hyn. Daeth plant ysgolion lleol hefyd i weithdai o dan arweiniad Lois a chafodd hi gyfle i esbonio ystyr ac arwyddocâd y gair yn y Testament Newydd gan gofio i Iesu Grist yngan y gair wrth farw ar y groes i ddangos fod gwaith iachawdwriaeth wedi'i orffen. Roedd Lois wrth ei bodd â'r ymateb i'r wythnos o ymgyrch.

## EGLWYS DEWI SANT

**Digwyddiadau Cerddorol**

Cynhaliwyd cyngerdd awr ginio dan nawdd Actifyddion Artistig Caerdydd ar 3 Mehefin gyda Pedwarawd Mavron, sef un o'r prif bedwarawdau llinynnol yng Nhymru'n perfformio. Roedd y rhaglen yn cynnwys cyfansoddiadau gan Mozart a Prokofiev. Dydd Gwener, 13 Mehefin cafwyd datganiad organ gan yr organydd dawnus Dr Peter King, Abaty Caerfaddon gynt.

**Sulgwyn**

Bu dau wasanaeth o'r Cymun Bendigaid ar fore'r Sulgwyn ac yna'n y prynhawn cynhaliwyd gwasanaeth dwyieithog yng ngardd y Parchedig Rhian Linecar i ddathlu'r Ŵyl.

**Ordinasiwn yn Llundain**

Urddwyd y Parchedig Elinor Talfan Delaney yn offeiriad gan Esgob Llundain, ddydd Sadwrn, 21 Mehefin yn Eglwys Emanuel, Gorllewin Hampstead. Maged Elinor yn Eglwys Dewi Sant ac rydym fel eglwys yn dymuno pob bendith iddi ar ei hordinasiwn i'r offeiriadaeth. Hi fydd yn pregethu yn ein gwasanaeth Diolchgarwch eleni.

**Llais Hen Delynau**

Cafwyd cyngerdd gwefreiddiol yng nghwmni'r delynores Elinor Bennet nos Wener 20 Mehefin. Canodd Elinor ddwy delyn, y delyn deires a thelyn bedal, a'r ddwy dros ddau gan mlwydd oed. Roedd ansawdd sain yr offerynnau yn ei dwylo meistrolgar yn glir, tyner, peraidd ac yn swynol tu hwnt. Roedd cymeradwyaeth wresog y gynulleidfa yn dweud y cyfan.

**Barbeciw Blynyddol yr Eglwys**

Er mai anwadal oedd y tywydd nos Wener 27 Mehefin, cafwyd noson o gymdeithasu gwresog a bwyd da ym marbeciw blynyddol yr Eglwys yn y Ficerdy. Diolch i Rhys Davies ein prif gogydd a'r criw oedd yn cynorthwyo yn paratoi a gweini'r bwyd.

**Urddo'n Offeiriad**

Braint oedd bod yn bresennol yn Eglwys Gadeiriol Llandaf fore Sadwrn 28 Mehefin ar gyfer y gwasanaeth ordeinio offeiriaid. Ymhlith y rhai a urddwyd oedd ein curad y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones. Bydd Lloyd yn parhau'n gurad yn Eglwys Dewi Sant, ac fel eglwys rydym yn dymuno pob bendith arno yn yr offeiriadaeth.

## YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Yr Eglwys Gadeiriol, Llandaf, Caerdydd: Gwasanaeth y Cymun Bendigaid bob bore Iau am 9.30 o'r gloch. Coffi/te a chlonc i ddilyn ym mhentref Llandaf.

Eglwys Sant Luc, Parc Cimdda / Victoria, Treganna, Caerdydd: Gwasanaeth y Cymun Bendigaid, 13/07/2025 am 4 o'r gloch. Coffi/te a chlonc i ddilyn.

Eglwys Santes Catherine, Pontcanna, Caerdydd (ger Siop Caban): Gwasanaeth y Cymun Bendigaid, 27/07/2025 am 4 o'r gloch. Coffi/te a chlonc i ddilyn.

Llongyfarchiadau gwresog i Jessica a David Crole, ar enedigaeth Elin, chwaer fach i Alys Megan, yn Ysbyty'r Waun. Mamgu a Datcu mor falch.

Bendith a thangnefedd.

## SALEM, TREGANNA

**Clwb Criced**

Llongyfarchiadau i Glwb Criced Salem ar dymor llwyddiannus hyd yn hyn. Cafwyd gêm yn erbyn un o adrannau'r Llywodraeth ddechrau mis Mehefin.

Yna, nos Fawrth 24 Mehefin cafwyd gêm ar Gae'r Esgob yn erbyn y Tabernacl, er cof am Prys Dafydd, a oedd yn un o ffyddloniaid y clwb, a'r capel. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

**Dymuniadau Gorau**

Dymuniadau gorau i holl bobl ifanc dros yr haf sy'n symud ymlaen yn eu bywydau, gyda rhai yn symud blwyddyn ysgol, eraill yn symud i ysgol newydd, ac eraill yn gadael yr ysgol.

A dymuniadau gorau, hefyd, i un o'n pobl ifanc, Fflur Llewelyn, sy'n mynd i Wlad Thai am flwyddyn fis Medi. Mwynha dy hun, a chofia gadw mewn cysylltiad.

**Gweithgareddau eraill**

**Clwb Brecwast** i rieni a phlant / babanod o dan oed meithrin - Bore Mercher rhwng 9.45 a 11.15

**Clwb Coffi** – Bore Gwener rhwng 11.00 a 12.00. Croeso i unrhyw un ymuno am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.

**Clwb y Bobol Ifanc**

Mae croeso i bobl ifanc oedran uwchradd ymuno – Nos Wener unwaith y mis am weithgareddau hwyliog a chyfle i gwrdd â ffrindiau hen a newydd. Mae llu o weithgareddau'n cael eu trefnu, boed yn y capel neu o gwmpas y ddinas, neu wibdaith hyd yn oed.

**Clwb Llyfrau**

Cyfle i rannu diddordebau a chymdeithasu, a chael sbec fach ar dai ein cyfeillion, wrth gwrdd yn fisol ar Nos Fawrth.

Er bod y gweithgareddau hyn yn dod i ben dros yr haf, rydym yn edrych ymlaen at ailafael yn y cyfan fis Medi. Cadwch lygad ar ein tudalen Capel Salem ar 'Facebook', i gael rhagor o fanylion am ein gweithgareddau neu ein gwasanaethau, neu ewch i wefan Salem: Capelsalem.org.



## BETHEL, PENARTH

Anfonwn eich cyfarchion gwresog at Eirlys a Hazel, y ddwy yn goddef anhwylder, ond gyda'u sirioldeb nodweddiadol.

Ymchwil MND yw elusen Bethel am 2025/2026.

Ar hyn o bryd mae sŵn morthwyl a llif yn dod o lawr isaf y capel oherwydd gwaith addasu, tynnu i lawr yma a chodi draw. Bwriad hyn oll yw sicrhau ystafell aml-bwrpas a chyfleusterau i'r anabl yn unol â gofynion iechyd a diogelwch. Rydym yn dra diolchgar i John am fod yn gyswllt mor effeithlon gyda'r gweithlu.

Dros Suliau Mehefin (hyd y 27ain) buom ar ein hennill o dderbyn arweiniad Kevin ein gweinidog, Mary Simmonds, Denzil John a Gwilym Wyn Roberts. Wrth lunio'r nodiadau hyn, rydym yn edrych ymlaen at groesawu'r Parchedig Gwyn Elfyn Jones am y tro cyntaf ar Sul ola'r mis.

Ym mis Gorffennaf disgwyliwn yn eiddgar am arweiniad gan y gweinidog, Sian Meinir, Y Parchedig John Roberts ar y tri Sul cyntaf. Ar Sul y 27ain byddwn yn troedio llwybrau cof, wrth weld ffilm yn cofnodi'r cyfnod o ddychwelyd i'r Bethel newydd.

Ni fydd oedfaon ym Methel yn ystod mis Awst. Dychwelwn ar y 7fed o Fedi gyda'n gweinidog. Ar y Suliau canlynol byddwn dan arweiniad diogel Sian Meinir, Jeff Williams ac Aled Edwards.

---

## O'r Pwyllgor

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn nhŷ bwyta Porro Llandaf, nos Fawrth, 1 Gorffennaf am 6.30 ac yna cafwyd y bwyd blasus awr yn ddiweddarach. Daeth 15 i'r cwrdd blynyddol ac 19 i'r bwyd. Fel gwelwch yn y llun rhwng y pwyllgor a'r bwyd cyrhaeddodd Gwilym Roberts, Lowri Haf Cooke, Bryan a Val James. Cawsom ni i gyd amser cymdeithasol da.

Dalier sylw! Mae angen tynnu sylw at un mater yn arbennig.

Mae Eirian wedi cysodi'r *Dinesydd* bellach ers dros ddegawd ac mae Gwilym wedi bod yn dosbarthu copïau caled yn y siopau ers mis Ebrill 2017. Golyga hyn eu bod yn 'gaeth' i'w cartref o tua'r 27ain o'r mis hyd at y 12fed o'r mis canlynol – a hyn am 10 mis o'r flwyddyn ac eithrio diwedd misoedd Gorffennaf a Rhagfyr. Fe ddaeth hi'n bryd iddynt dderbyn cymorth! Yn ddelfrydol byddai'n braf cael dirprwy gysodydd i ofalu am 3 rhifyn o'r 10 blynyddol. Tybed a oes diddordeb gan rywun? Anfoner air at eirianagwilym@gmail.com Bydd y pwyllgor yn trafod hyn yn y cyfarfod nesaf, nos Fawrth, 30 Medi.



Swpera wedi cyfarfod blynyddol
Y Dinesydd

# Bwytai Merch y Ddinas



## Gwinoedd Tair Gafr

### Lowri Haf Cooke

Sut hwyl sydd ar bawb yn y tywydd braf diweddar? A beth fyddwch chi'n hoffi ei fwyta ac yfed pan fydd yr haul yn tywynnu? Dw i wrth fy modd ar hyn o bryd gyda llysiau a ffrwythau ffres y tymor, fel ffa llydan, eirin mair, dail salad ac ysgawen, o gofio eu bod nhw'n flasau mor fyrhoedlog. Ac mae ambell flas o'm teithiau diweddar wedi fy nilyn 'nôl i'r Brifddinas. Am un peth es i fyny i Wrecsam, i ymchwilio i fwytai bro'r Eisteddfod Genedlaethol. Dw i'n credu mai'r pryd bwyd mwyaf cofiadwy ges i oedd yn nhafarn y Swan ym Mhontfadog; prif gwrs o salad Niçoise gyda brithyll ffres o'r afon Ceiriog. Yna rai dyddiau'n ddiweddarach, ces i wahoddiad i westy'r Grove yn Sir Benfro i ymchwilio i winoedd o Gymru. Sôn am agoriad llygad.



Un o'r gwinoedd hynny a flasais oedd gwin rhosliw 'Gafr Binc' gan gwmni 'Tair Gafr'; gwinllan a sefydlwyd yn Nhregof, Bro Morgannwg, dair milltir yn unig o leoliad fy adolygiad diwethaf i'r Dinesydd, sef tafarn y Bush, Saint Hilari. Cafodd ei weini gyda salad tomato a chaws gafr, ffigys a thomatos, a joch dda o besto brenhinllys (basil). Ardderchog.

O siarad gyda pherchnogion y cwmni, Drew (O Resolfen, Cwm Nedd ) a Sarah (sy'n wreiddiol o ardal y y Llynnoedd yng ngogledd Lloegr), yng Ngŵyl Fwyd Bae Caerdydd ar ddiwedd mis Mehefin, deallais i'r ddau ddod at gyfaddawd o ran eu cynllun busnes. Tra roedd Drew yn awyddus i sefydlu gwinllan ar eu tir, roedd Sarah am fagu alpacas a geifr. Penderfynwyd gwneud y ddau beth, ac yn wir, mae gwastraff yr anifeiliaid yn wrtaith gwych ar gyfer y grawnwin organig Regent (coch) ac Orion (gwyn) sy'n ffurfio gwin rhosliw 'Gafr Binc' (2023).

Mae gen i newyddion da ar eich cyfer os hoffech chithe hefyd flasu gwinoedd 'Tair Gafr' – gan gynnwys gwin 'Gafr Goch' o'r grawnwin Regent. Mae taith flasu o amgylch y winllan rhwng 2 a 4 o'r gloch ar brynhawn dydd Sadwrn y 26ain o Orffennaf. Ewch i'r wefan i fachu'ch tocynnau sef www.tairgafrwines.co.uk. Mae'r gwinoedd hefyd ar werth mewn nifer o siopau lleol, gan gynnwys siop fferm Forage ar gyrion y Bontfaen, canghennau The Bottle Shop (Penylan, Penarth a Phontcanna), Chilled and Tannin yng Nglanyrafon, siop VinVan ym marchnad Corp, Treganna a deli Wally's yng nghanol y ddinas.

Neu os am archebu potel o win Tair Gafr mewn bwyty lleol, rhowch gynnig ar Moura ar Heol Waungron, Llandaf. Dw i ddim wedi bod yno eto – mae ar fy rhestr ar gyfer y misoedd nesa – ond mae'n debyg pan gynhaliwyd noson flasu yno'n gynharach eleni, aeth y 'Gafr Goch' yn wych gyda'r cawl traddodiadol. Mae hynny'n cadarnhau yr hyn dw i'n ei deimlo am winoedd o Gymru; dydyn nhw ddim yn ddiodydd i'w llowcio'n ddi-feddwl, ond yn hytrach yn rhan o 'sgwrs' ehangach, fel rhan o wledd gyda blasau a seigiau o'r un ardal.

Felly os byddwch yn ddigon ffodus i fod yn crwydro Cymru ar eich gwyliau haf eleni, cofiwch gymryd y cyfle i archebu glasied o win lleol, a'i fwynhau yn yr heulwen gyda chigach, darn o gaws neu bwdin ffrwythau o'r un ardal. Galla i feddwl am ddwsinau o enwau - o Ancre Hill yn Nhrefynwy i Lwynhudol ym Mhwllheli – felly beth am gychwyn wrth eich traed, yma yng Nghaerdydd a'r Fro? A pheidiwch anghofio canu pob pennill o 'Oes Gafr Eto?' ar yr un pryd! Iechyd da i bawb a mwynhewch yr haf.

Gwinoedd Tair Gafr, Fferm Treguff, Y Bontfaen CF71 7UE; www.tairgafrwines.co.uk

*Bwytai Cymru, Canllaw Bach Caerdydd a Gwledd* gan Lowri Haf Cooke – ar werth yn eich siop lyfrau lleol, neu ar www.gwales.com

**Y Brodyr Frohawk yn llwyddiannus ym Margam**




Llongyfarchiadau i Owen a Gethin Frohawk ar ennill y wobr gyntaf yn y ddeuawd offerynnol Blwyddyn 13 ac iau yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr. Daeth y ddau glarinetydd o Ysgol Glantaf yn ail yn eu cystadlaethau unigol yn ogystal. Da iawn bois!

# Taflais

Teithiodd tua chant o aelodau'r côr i Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025 ar ddydd Sadwrn olaf yr ŵyl. Wedi wythnosau'n ymarfer yn rheolaidd yng nghapel y Tabernacl, cyrhaeddodd y diwrnod mawr, a phawb yn edrych ymlaen at gael perfformio ym Mharc Margam.

Roedd y côr yn cystadlu mewn sawl cystadleuaeth wahanol yn ystod y dydd, a braf oedd gweld bod ein gwaith caled wedi talu ar ei ganfed. Heb os yr uchafbwynt oedd cipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Côr Mawr (dros 40 o aelodau) yn canu'r darn gosod, 'Y Tangnefeddwyr' gan Eric Jones, a hynny o dan arweiniad Gronw Ifan. Roedd yn brofiad arbennig i gael cynifer ohonom yn perfformio ar y llwyfan gyda'n gilydd.

Roeddem yn falch iawn o gipio'r ail wobr yng nghystadleuaeth y Côr Bach (llai na 40 mewn nifer) yn canu trefniant o'r gân 'Y Gŵr o Gwm Penmachno'. Fel y gallwch ddychmygu, roedd naws ac arddull y darn yma yn dra gwahanol, gyda hyd yn oed symudiadau yn rhan o'n perfformiad!

Uchafbwynt arall oedd gweld y côr bechgyn yn cipio'r fedal aur - yn canu trefniant o'r emyn 'Dyma Gariad Fel y Moroedd' - o dan arweiniad Heledd Evans. Fe wnaeth y Parti Cerdd Dant hefyd gipio'r drydedd wobr yn canu geiriau'r Prifardd Mererid Hopwood, 'Ym Mhenrhyn Gŵyr'.

Wedi blynyddoedd o gystadlu yn yr Eisteddfod, hwn fyddai'r tro olaf i nifer ohonom ganu ar y llwyfan am ein bod yn mynd yn rhy hen! O'r herwydd roedd yn ddiwrnod chwerw felys i nifer, ac yn benllanw blynyddoedd o brofiadau bythgofiadwy ar lwyfannau'r eisteddfod.

Hoffem hefyd longyfarch Susanna Power, aelod o'r côr, ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth Medal Bobi Jones yn yr Eisteddfod. Rydym yn falch iawn ohoni.

O un 'steddfod i'r llall - rydym nawr yn troi ein golygon at yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam, lle byddwn yn cystadlu yng nghystadleuaeth y Côr Agored.



---

*Annwyl Gyfeillion*

Rwy'n cysylltu i roi gwybod i chi am yr astudiaeth pedair gwlad gyntaf o bolisi darlledu yn y DU ddatganoledig, ddechreuodd ym mis Mai. Fel prif ymchwilydd ar yr astudiaeth, sydd wedi derbyn Grant Chwilfrydedd o £79,600 oddi wrth Cyngor Cyllido Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC), byddaf yn gweithio ynghyd â'r Dr Phil Ramsey o Brifysgol Ulster, Dr Inge Sorensen o Brifysgol Glasgow, a'r Dr Tom Chivers o Goldsmiths, Prifysgol Llundain.

Mae'r cwestiwn o sut mae darlledu yn ymateb i'r dadleuon am gyfansoddiad y DU a'r ddadl ar ddatganoli ac yn eu siapio nhw yn bwnc sy'n dod yn fwy amlwg ar y gorwelion gwleidyddol, academaidd a pholisi.

Bydd y prosiect amserol hwn yn darparu fforwm unigryw a newydd i drafod, cyfnewid gwybodaeth a chydweithio ar bolisi darlledu heddiw ac yn y dyfodol yn y DU wrth iddi esblygu, gan ganolbwyntio ar ddatganoli pwerau darlledu i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn cynnal gweithdy ym mhob un o'r gwledydd, gan ddod ag academyddion, llunwyr polisi, gwleidyddion a darlledwyr ynghyd i ystyried sut y gallai darlledu weithredu yn y Deyrnas Unedig sydd â mwy o ddatganoli. Yn dilyn pob gweithdy, bydd papur briffio yn cael ei baratoi, gan dynnu ynghyd y prif faterion a drafodwyd, ynghyd ag argymhellion polisi. Ym mis Ebrill 2027, cynhelir cynhadledd ledled y DU, lle bydd adroddiad terfynol y prosiect yn cael ei gyhoeddi. Yn gyffredinol, ein nod yw bod yr astudiaeth yn darparu sylfaen gref o dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau a llunio polisïau wrth symud ymlaen, ac i fod o fudd i lunwyr polisi, ymchwilwyr, rhanddeiliaid ac i ddealltwriaeth ehangach y cyhoedd ar adeg dyngedfennol yn nyfodol gwasanaeth darlledu cyhoeddus y DU.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y prosiect, neu os hoffech leisio barn ynglŷn â'r syniad o ddatganoli polisi darlledu, cysylltwch â mi drwy e-bostio jsm@aber.ac.uk neu drwy lythyr:
Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
Adeilad Parry-Williams
Campws Penglais
Aberystwyth SY23 3AJ

Dymuniadau gorau,
*Yr Athro Jamie Medhurst*
*Prifysgol Aberystwyth*

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. **Ydych chi'n *rhiant neu'n ofalwr a dderbyniodd fudd-dal plant rhwng 1978 a 2010* sydd *ddim yn derbyn y Pensiwn Gwladol llawn*?** Os felly, mae'r Llywodraeth wedi nodi problemau gyda'r cynllun 'Diogelu Cyfrifoldebau Cartref' (*'Home Responsibilities Protection scheme'*) a ddylai fod wedi sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn derbyn y Pensiwn Gwladol llawn ar ymddeoliad.

   Os nad ydych chi, neu aelod o'r teulu, yn derbyn y Pensiwn Gwladol llawn, ac rydych wedi derbyn budd-dal plant rhwng 1978 a 2010, cysylltwch â *'Cyngor ar Bopeth'* (*'Citizens Advice'*) neu *'Age UK'* er mwyn gwirio a ydych yn gymwys ar gyfer ôl-daliad pensiwn a Phensiwn Gwladol uwch o hyn ymlaen.

2. Mae cytundeb Brexit newydd y Llywodraeth yn golygu ein bod yn gallu defnyddio ***gatiau electronig*** mewn meysydd awyr wrth deithio i/o wledydd yr Undeb Ewropeaidd. Dylai hyn helpu gyda chynlluniau teithio yn y dyfodol, ond ni fydd hyn yn effeithio ar eich gwyliau haf eleni, gan y bydd y mesur yma yn dod i rym ym mis Hydref 2025.

   Os ydych yn ***teithio gydag anifeiliaid anwes***, mae cyfyngiadau yn parhau am y tro, ond mae rhai pobl wedi dod o hyd i ffyrdd annisgwyl i leihau'r trafferthion, gan gynnwys cofrestru eu hanifail anwes mewn gwlad arall (roedd achos diweddar o unigolyn o Swydd Gaerwrangon yn cofrestru eu Jack Russell yng Ngwlad Belg!).

***Cwestiynau Huw ac Aled***

***C:*** Rydw i a fy chwaer yn gweithredu fel Atwrnai (*'Lasting Powers of Attorney'*) i'n mam oedrannus ac nid oes ganddi'r gallu mwyach i wneud penderfyniadau ariannol. Treuliodd nifer o flynyddoedd hapus yn ei hymddeoliad yn byw yn Andalusia yn Sbaen cyn dychwelyd i Gymru ychydig o flynyddoedd yn ôl. Mae hi'n dal yn berchen ar y tŷ yn Andalusia ac efallai bydd angen i ni werthu'r tŷ er mwyn talu ffioedd ei chartref gofal.

Oes modd i fy chwaer a minnau werthu'r tŷ hwn tra'n gweithredu fel Atwrnai?

***A:*** Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniadau ry'ch chi'n eu gwneud fel Atwrnai fod er budd yr unigolyn. Os ydych chi a'ch chwaer yn penderfynu y byddai'ch mam wedi gwerthu'r tŷ er mwyn talu am ffioedd ei chartref gofal, pe bai ganddi'r gallu i wneud y penderfyniad, mae gennych lawer iawn o waith papur cyfreithiol i'w gwblhau i brofi i'r awdurdodau yn Sbaen eich bod yn gweithredu ar ei rhan.

**Dyw ffurflenni Atwrnai *ddim wedi cael eu creu i'w defnyddio dramor.***

Yn yr enghraifft yma, os nad oes gan eich mam ffurflenni Atwrnai o Sbaen, rydych yn ddibynnol ar gofrestrfa tir (*'Land Registry'*) Sbaen ac ar Notari i dderbyn ffurflenni Atwrnai Prydeinig. Efallai y bydd angen nifer o ddogfennau ychwanegol, fel *'affidavit'* gan gyfreithiwr ym Mhrydain sy'n cadarnhau dilysrwydd y ffurflenni Atwrnai, a byddai'n rhaid cyfieithu rhain i'r Sbaeneg a'u cyfreithloni gan 'apostille'.

Cysylltwch ag arbenigwr lleol sydd â phrofiad o ddelio gyda pherchnogion tai tramor a sicrhewch eich bod yn neilltuo amser ac arian ar gyfer y cymhlethdodau anochel fydd yn codi.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni drwy: Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

# Agor y Llyfr

**(gwaith ysgolion Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd)**

Bocs mawr cario peiriant golchi yn troi'n gwch!

Bwced a phapur coch yn troi'n dân ar lan y môr!

Rhwyd amddiffyn pys rhag yr adar yn troi'n rhwyd bysgota!

A hen gynfas gwely glas yn troi'n Fôr Galilea!

Dyna'r math o ddyfeisgarwch sy'n dod i'r adwy wrth i dîm Agor y Llyfr Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd gyflwyno hanesion o'r ysgrythur i ddisgyblion nifer o ysgolion cynradd Cymraeg yr ardal. Dros yr wythnosau diwethaf cyflwynwyd hanes y Pasg, o ddydd Gwener y Groglith, Sul y Pasg, y daith i Emaus, y picnic gyda'r disgyblion ar lan y môr ac yna ymlaen i hanes Iesu'n gadael y ddaear a dychwelyd at ei Dad nefol. Pleser mawr yw gwahodd rhai o ddisgyblion yr ysgol i gymryd rhan gyda ni. Mae'n tymor gwaith am y flwyddyn academaidd hon yn prysur ddirwyn i ben ac edrychwn ymlaen at gyfleon y tymor nesaf.



Erbyn hyn mae nifer yr ysgolion sy'n ein croesawu wedi cynyddu ac yn cynnwys – Y Mynydd Bychan, Glan Morfa, Gwaelod y Garth, Treganna, Hamadryad a'r Berllan Deg.

Os oes ysgolion eraill am dderbyn ymweliad, cysylltwch ag Alun Tudur (atudur@gmail.com).

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

Yn ystod Eisteddfod Wrecsam bydd Rhian Griffiths o *Gaerdydd yn cael ei hurddo i'r Orsedd am ei chyfraniad enfawr i'r byd tennis yng Nghymru dros hanner can mlynedd – llongyfarchiadau gwresog i Rhian. Yn wreiddiol o ardal Wrecsam, mae Rhian wedi cynrychioli ei gwlad ar bob lefel, o'r tîm dan 14 oed hyd at y tîm dros 60. Ers 2022, mae wedi ennill dros 20 teitl ym mhencampwriaethau'r Ffederasiwn Tennis Rhyngwladol (ITF). Yn ogystal â chynrychioli Cymru mae'n aelod o dîm dros 60 y DU. Cyn ymddeol roedd yn athrawes Saesneg yn Ysgol Glantaf.*

*Bu ein gohebydd Hywel Owen yn ei holi.*

**HO** – Sut gwnest ti gychwyn chwarae tennis?

**RhG** – Cychwynnais trwy fwrw pêl yn ddi-baid yn erbyn wal – ymarfer y gwnes i ail-afael ynddo yn ystod y cyfnod clo oherwydd caewyd cyrtiau tennis. Rwy'n hynod ddyledus i'm diweddar dad am yr oriau y gwnaeth o dreulio yn bwrw'r bêl tennis nôl ataf.

**HO** – Beth yw dy gysylltiad gydag ardal y Steddfod?

**RhG** - Fe'm magwyd yn *Southsea* (Glanrafon) gan fynychu ysgolion Coedpoeth a Morgan Llwyd. Roeddwn yn aelod o glwb Brymbo oedd yn gysylltiedig â'r gwaith dur - roedd gan y clwb oleuadau, peth digon prin yn y 70au a olygai bod modd chwarae yn y gaeaf.

**HO** – Pryd gwnest ti gychwyn cystadlu?

**RhG** – Enilles i fy nghystadleuaeth gyntaf pan o'n i'n 11 mlwydd oed – cystadleuaeth i rai dan 14 yng Nglannau Dyfrdwy. Oherwydd hynny ces fynediad hwyr i bencampwriaeth Cymru'r flwyddyn honno gan gyrraedd y rownd gynderfynol cyn colli yn y 3edd set.



Mi wnes gystadlu yn flynyddol ym mhencampwriaethau iau Cymru gan ennill y senglau ar gyfer pob oedran i fyny at 18 mlwydd oed. Cefais fy newis flwyddyn ar ôl cystadlu am y tro cyntaf i dîm dan 14 Cymru.

**HO** – Beth yw uchafbwyntiau dy yrfa?

**RhG** - Cynrychioli Cymru ar wahanol lefelau gan gynnwys y prif dîm cenedlaethol. Yn niwedd y 70au baswn yn chwarae dros Gymru yn flynyddol yn erbyn Lloegr ar gyrtiau glaswellt Llanelli. Roedd cystadlaethau'r 4 Gwlad a Chwpan yr Haf i siroedd yn anrhydedd bob tro - ar un achlysur gwnes i guro Judy Murray! Roedd chwarae yn erbyn Iwerddon yn braf oherwydd y cyfeillgarwch rhyngom fel gwledydd Celtaidd.

Ennill prif bencampwriaethau Cymru yn y senglau a'r dyblau yw'r prif uchafbwynt. Gwnes i ennill hefyd bencampwriaeth Prydain i fyfyrwyr yn 1982. Rwyf wedi bod yn ffodus i fedru parhau i gystadlu ar lefel uchel fel chwaraewr hŷn. Roedd cael mynd yn ddiweddar i gystadlu ym Mhencampwriaeth y Byd yn Miami ar gyfer timau dros 60 yn grêt.

**HO** – Beth yw dy gryfderau fel chwaraewr?

**RhG** – Dycnwch. Dwi ddim yn hoffi colli. Mae fy "*backhand slice"* yn effeithiol iawn. Baswn ar adegau wedi hoffi mwy o bŵer ac i fod yn fwy ymosodol.

**HO** – Sut aeth pethau ym Mhencampwriaeth y Byd ym mis Mai?

**RhG** – Gwnaethom fel tîm y DU ennill ein grŵp a chyrraedd y rownd gynderfynol cyn colli i'r Eidal. Enilles i fy ngemau yn y dyblau. Roedd nifer o'r chwaraewyr yn gyn-chwaraewyr proffesiynol neu yn hyfforddwyr tennis.


**HO** – Rwyt ti nawr yn cynrychioli Cymru yn Padel. Sut mae Padel yn cymharu â thennis?


**RhG** – Mae Padel yn cael ei chwarae ar gwrt llai sydd â waliau – does dim rhaid mynd yn bell i gasglu'r bêl. Er mwyn cyrraedd safon gweddol mewn tennis mae rhywfaint o hyfforddiant yn angenrheidiol. Yn Padel mae'r *serve* yn haws. Gyda nifer o gyrtiau newydd Padel yn agor yng Nghaerdydd rwy'n siŵr bydd nifer y chwaraewyr yn cynyddu. Mae tennis yn parhau yn boblogaidd yn y brifddinas a dwi'n rhyfeddu at y ganran uchel o Gymry Cymraeg dwi'n dod ar draws mewn gwahanol glybiau tennis a hefyd yn chwarae Padel.

**HO** – Unrhyw gyngor i chwaraewr ifanc?

**RhG** – Mae'n medru bod yn yrfa unig iawn. Nifer bychan iawn o chwaraewyr sydd yn cyrraedd y brig. Mae Mimi Xu y Gymraes sydd yn cystadlu yn Wimbledon eleni wedi ymroi i tennis bron yn llawn amser ers yn 10 oed. Mae chwarae tennis i safon uchel yn cynnig profiadau da, fel mae fy mhlant wedi profi, yn y brifysgol ac wrth ymgartrefu mewn lleoliad newydd. Mae'n gêm gydol oes. Gwnes i gyfarfod yn ddiweddar chwaraewr rhif un y byd dros 90 – menyw hynod o gyfeillgar a ffit. Dyna fy nod nesaf! Y prif air o gyngor yw mwynhau'r gamp.

## Rhif: 254




**Ar Draws**
6.'----- ----- ----- dalwyd ar y groes
Yw sylfaen f'enaid gwan' (WJ) (2,4,1)
7. Offer clyw yn help i godi'r gwpan (5)
9. Rhagfyr heb ddechrau ar ei hynt (5)
10. Cael amser addas ar y Sul efallai o gwmpas dechrau Chwefror (7)
12. '----- ----- meibion Adda
Yn yr Alpha mawr ei Hun' (WW) (2,9)
14. 'Dymor ----- ----- ----- -----,
Tyrd eto i'r oed ataf' RWP) (3,1,4,3)
18. Yr ias o dorri'r cordyn ar ddechrau'r dydd (7)
19. Gwrthun ar ddechrau amser teuluol gweld annifyrwch sylfaenol (5)
21. Wrth gladdu'r newyddion drwg, ffeindio'r tlws (5)
22. 'Mwy o boen ar rai sy'n gwario
Nag ar eraill yn -----' (tradd) (7)

**I Lawr**
1. Cwyro yn drylwyr nes ei fod yn glaer (5)
2. Carafan digalon i'r criw (6)
3. Cyfrannu llai i gôt y ddafad (3)
4. Ai lwc ydi ffeindio'r gatiau? (6)
5. O, Dai! Ust! 'Rwy'n myfyrio. (7)
8. 'Gwelais ei fen liw dydd
Ar ffordd yr ----- iach' (EW) (7)
11. Rhagorol o bob golwg (7)
13. Beirdd du yn creu bryntni (7)
15. Cyfarch heffer benchwiban (6)
16. Sut ras i'w gael? Dyna sy'n aneglur (6)
17. Cyfyngu'r camwario i allu ennill (5)
20. 'Mis Awst, a'r grug o'n cylch, a'r môr
Odanom heb na gwg na -----' (WE) (3)

**Enillydd Croesair Rhif 252**
**Eluned Edwards, Llandaf**

**Atebion Croesair Rhif 252**
**Ar Draws**
1. Dial 3. Burmanog 9. Wfftio 10. Faint 11. Wedi gorwario 13.Ysgogi 15. Storfa 17. Deinosoriaid 20. Nythfa 21. Affrig 22. Sbeitlyd 23. Enlli
**I Lawr**
1. Daw gwayw 2. Astud 4. Utgorn 5. Myfi anturia'n 6. Neithior 7. Guto 8. Bo'r gogoniant 12. Llandygái 14. Gweithle 16. Ysbyty 18. Adran 19. Ynys

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Medi, 2025
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

## Cysgodion Hir y Rhyfel Mawr yn cael eu trafod mewn darlith yn Llundain

Ar ddydd Gwener 20 Mehefin cefais y fraint o draddodi'r ddarlith hanes i gynhadledd flynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru yn Eglwys Gymraeg Canol Llundain. Fy nhestun oedd 'Rhyfel, Colled a Heddwch: Gyrfaoedd Cyfochrog Lloyd George a John Hinds', ac felly roeddwn yn trafod un dyn sy'n dal i fod yn enwog ac un arall sydd wedi mynd yn angof, er iddo fod yn ddyn o bwys yn ei gyfnod.

Roedd y ddau yn aelodau seneddol Rhyddfrydol yn cynrychioli seddi yng Nghymru yn nghyfnod y Rhyfel Mawr, ac effaith y rhyfel hwnnw ar eu gyrfaoedd a'u bywydau oedd prif bwnc fy llith. Mae'n siwr bod pawb yn ymwybodol bod Lloyd George wedi dod yn Brif Weinidog yng nghanol y Rhyfel, yr unig Gymro i gael y swydd, ac yn ddiweddarach bu'n ymffrostio pan oedd pobl yn dweud taw fe oedd 'y dyn a enillodd y Rhyfel'. Roedd John Hinds yn gyfaill ac yn ddilynydd i Lloyd George, ac un o'r agweddau a ddaw drosodd yn glir wrth edrych ar ei hanes yw sut yr oedd yn gorfod cyfaddawdu o ran ei egwyddorion yn y cyfnod 1914 i 1918 er mwyn cyfiawnhau gweithgareddau'r Llywodraeth a'i pholisïau ymladdgar.

Un gwahaniaeth amlwg rhwng Lloyd George a John Hinds oedd tra bod meibion 'dewin Dwyfor' wedi gwasanaethu fel swyddogion yn ddigon pell i ffwrdd o'r llinell flaen, bu farw unig fab John a Lizzie Hinds ar Ffrynt y Gorllewin yn 1916, yn 18 mlwydd oed. Am weddill ei oes bu John Hinds yn hynod o weithgar mewn mentrau i goffáu meirwon y Rhyfel Mawr, ac i hybu gweithgareddau i geisio sicrhau heddwch.

Ym mis Ebrill 1922 fe dalodd Mr a Mrs Hinds am gofeb yn Castle Street, Llundain – sef Eglwys Gymraeg Canol Llundain heddiw – i goffáu'r 14 o ddynion y capel a laddwyd yn y Rhyfel Mawr, gan gynnwys eu mab. Yr un a ddadorchuddiodd y dabled oedd eu cyfaill, y Prif Weinidog, Lloyd George.

*Gethin Matthews,*
*Prifysgol Abertawe*



www.mentercaerdydd.cymru
menter caerdydd
CYNLLUN CHWARAE AGORED
BWRLWM
AM DDIM!
GOFAL PLANT
YSGOL TREGANNA
YSGOL MELIN GRUFFYDD
£35.00
DIWRNOD LLAWN
CLWB SGILIAU
£30.00
DIWRNOD LLAWN
YSGOL Y BERLLAN DEG
DOSBARTH DERBYN - BLWYDDYN 6
YN YSTOD GWYLIAU'R YSGOL
menter caerdydd
CARDIFF CAERDYDD
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae
Playworks Holiday Project

**Ac uchafbwynt y tymor oedd y Daith Rygbi i Quimper….**

Rhaid canmol carfan y tîm Dan 15, CRCC, a hynny nid yn unig am eu chwarae anturus a medrus drwy'r tymor. Mae'r bechgyn hefyd wedi meithrin sawl sgil newydd eleni wrth i ni fynd ati i drefnu taith go arbennig i Lydaw.

Daeth gwahoddiad oddi wrth glwb rygbi Quimper i gymryd rhan mewn twrnament rhyngwladol i oedrannau dan 15 ac 16.

Trefnwyd sawl digwyddiad cymdeithasol yn ystod y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r sgwad yn cael mynd ar y daith yn rhad ac am ddim.

Cynhaliwyd noson cabaret lwyddiannus yn ysgol Glantaf yn y gwanwyn: y bechgyn oedd yn gweini'r bwyd a Taran, Mike Bubbins, Helen Rosser Davies a Rhys ap William oedd yn ein diddanu gydag Owain Evans fel cyflwynydd heb ei ail, wrth y llyw. Aeth criw o fechgyn i godi arian hefyd cyn gêm Cymru - Lloegr yn y chwe gwlad gan siglo bwcedi'n awchus o flaen Stadiwm y Principality.

Wedi misoedd o drefnu a phwyllgora, yn fuan iawn roedd popeth yn ei le, yr yswiriant a'r caniatâd i chwarae rygbi yn Ffrainc, y tocynnau fferi, y bws a'r gwesty a phawb yn llawn cyffro ac yn edrych ymlaen yn fawr at y daith.

Rhyw 56 ohonom i gyd, yn gefnogwyr ac yn chwaraewyr.

Chwaraeodd y bechgyn rygbi agored wrth redeg a phasio yn arddull Fiji tra'n ymddiried yn ei gilydd er mwyn cyd-chwarae fel tîm ar gaeau Stade de Creac'h Gwen. 6 gêm i gyd yn erbyn timoedd o wlad Belg, yr Iseldiroedd a Ffrainc: dros ddau ddiwrnod o chwarae a hynny yn ugeinfed twrnament Cornouaille.

Roedd hi'n benwythnos y Pasg ac felly rhaid oedd cael blasu wystrys a Muscadet ar y Sul a gwledda ar ddigonedd o grêpes a seidir tra'n gwylio'r gemau yn y stand.

Braint oedd cael cyd-deithio gyda'r tîm Dan 15 a'u gweld yn serennu, nid yn unig ar y cae, ond hefyd fel criw o lysgenhadon hynaws yn cynrychioli Clwb Rygbi Cymry Caerdydd gyda balchder.

Am brofiad bythgofiadwy i'r bechgyn ac i'r cefnogwyr.

Rhaid diolch yn fawr iawn am gefnogaeth ddiflino ein teuluoedd a'n ffrindiau a phwyllgor Clwb CRCC eleni. Ond i'r bechgyn, ein Tîm Dan 15, mae'r diolch pennaf, wrth gwrs.

Ymlaen Clwb!

*Mam Arthur*

***Lluniau: Y criw dan 15***





# Ysgol Plasmawr

**Llwyddiant ysgubol Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr**

Rydym yn hynod falch o longyfarch ein disgyblion ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dur a Môr eleni. Mae eu hymroddiad, eu creadigrwydd, eu brwdfrydedd a'u talent wedi disgleirio, gan sicrhau canlyniadau rhagorol mewn amrywiaeth o gystadlaethau corawl, ensemblau, bandiau, unawadau, deuawdau a chelf. Llongyfarchiadau a diolch i bawb a gymrodd ran.

**Cyntaf**

Elen a Jini: Deuawd Cerdd Dant

Anna, Greta, Elen a Jini: Ensemble Lleisiol Bl.7, 8 a 9

Elen Dafydd Roberts: Unawd Alaw Werin Bl.7, 8 a 9

Trystan Gwilym: Unawd Bechgyn Bl.7, 8 a 9

Parti Merched Bl.7, 8 a 9

Côr SA Bl.7, 8 a 9

Erin Fflur Jardine: Unawd Telyn Bl.10 a dan 19 oed

Erin Fflur Jardine: Unawd Piano Bl.10 a dan 19 oed

Efan a Nel: Deuawd Cerdd Dant Bl.10 a dan 19 oed

Max a Lefi: Deuawd Bl.10 a dan 19 oed

Alys Henden: Graffeg Cyfrifiadurol Bl.7, 8 a 9

**Ail**

Elen Dafydd Roberts: Unawd Merched Bl.7, 8 a 9

Penbleth (Band Bl.10): Band/Artist unigol

Niall Dorrington: Gwaith 3D Bl. 7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)

**Trydydd**

Elen Dafydd Roberts: Unawd Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9

Cerddorfa / Band dan 19 oed gydag Aidan Dorrington Bl.12 yn arwain y Band

Côr SA Bl.13 ac iau

Aidan, Efan, Ioan, Lefi, Max a Reuben: Ensemble o gân Sioe Gerdd Bl.10 ac o dan 25

Mac (Band Bl.12): Band/ Artist unigol







*Lluniau – Y Deuawdwyr Buddugol a Chôr SA Bl 7,8 a 9*

## O fyd addysg i yrfa Gymraeg...

Ganol Mehefin, daeth dros 800 o bobl ifanc Blwyddyn 12 o ysgolion uwchradd Cymraeg o bob cwr o'r de i Gaerdydd i gael blas ar fywyd mewn sefydliad addysg uwch a'r cyfleoedd sydd ar gael i barhau â'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac ymlaen i yrfa Gymraeg. Hwn yw'r trydydd digwyddiad o'i fath i'w gynnal a'r ail dro iddo ddigwydd yn adeiladau Prifysgol Caerdydd yn y brifddinas. Y nod yw ysbrydoli pobl ifanc i weld gwerth parhau â'r Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol a pharhau i feithrin balchder yn y sgiliau iaith y gallan nhw eu mwynhau fel myfyrwyr yn ogystal â'u cynnig i gyflogwyr wrth fentro i fyd gwaith maes o law.

Dechreuodd y diwrnod gyda sesiynau penodol gan sefydliadau addysg uwch y ddinas yn cyflwyno'u hunain yn adeiladau'r brifysgol cyn i'r disgyblion symud draw i'r Neuadd Fawr, lle derbyniodd y bobl ifanc gyflwyniad ar broses UCAS – sef sut i wneud cais am le mewn prifysgol.




Yn dilyn hynny, fe glywodd y bobl ifanc mewn sesiwn dan arweiniad y cyflwynydd Lloyd Lewis am brofiadau bywyd go iawn panel o fyfyrwyr cyfredol a chyn-fyfyrwyr a oedd wedi manteisio ar eu sgiliau Cymraeg neu wella eu sgiliau Cymraeg, un ai yn y coleg neu wedyn wrth fynd ymlaen i fyd gwaith.

Cafodd pawb wedyn gyflwyniad gan Natalie Hughes o S4C ar werth y Gymraeg yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru – a thu hwnt - a bod lle i bawb o bob cefndir yn y diwydiant hwn yng Nghymru.

Ar ôl y sesiynau hyn a chyfle am ginio sydyn roedd cyfle i'r myfyrwyr grwydro'r ffair yrfaoedd drws nesaf i'r Neuadd Fawr lle roedd dros 30 o stondinwyr yn cynrychioli sefydliadau a chyflogwyr o'r de-ddwyrain sy'n gweld mantais gwirioneddol ac ymarferol heddiw i gyflogi gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg. Roedden nhw'n cynnwys cyflogwyr o'r sector cyhoeddus, y byd addysg ac addysg bellach, plant a phobl ifanc, y diwydiannau creadigol, yr heddlu, y byd iechyd, y trydydd sector a byd y gyfraith.

A'r newyddion da yw bod bwriad cynnal digwyddiad tebyg unwaith eto'r flwyddyn nesaf yng Nghaerdydd - gyda chenhedlaeth newydd arall o fyfyrwyr ifanc Cymraeg!

**Gweithgareddau'r Haf**

Roedd yn braf gweld cymaint o bobl yn mwynhau yn Tafwyl fis diwethaf. Diolch i bawb ddaeth draw i Barc Bute i gefnogi'r ŵyl. Er holl brysurdeb y mis diwethaf, mae'r gwaith yn parhau a chriw Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg wrthi'n paratoi llond amserlen o weithgareddau i gadw'r plant yn hapus dros yr haf. Cofiwch hefyd am ein digwyddiadau amrywiol ar gyfer oedolion gan gynnwys cwis i ddysgwyr a sesiynau cerdded a sgwrsio.

**Cerdded a Chlonc (rhad ac am ddim)**

Beth am fanteisio ar y nosweithiau braf i ymuno â ni am dro hamddenol? Mae croeso i siaradwyr rhugl a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg. Byddwn yn cynnal sesiynau Cerdded a Chlonc am 6.00yh ar y nosweithiau canlynol:

Nos Fawrth, 12 Awst – Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien

Nos Fawrth, 19 Awst – Parc Cosmeston, Penarth

**Teithiau Tywys**

Cofiwch gofrestru ar gyfer ein taith dywys i Bontypridd ar brynhawn Sul, 27 Gorffennaf pan fydd Wil Morus Jones yn adrodd hanes rhai o leoliadau a chymeriadau diddorol y dref. Yn ystod y daith byddwn yn ymweld â Pharc Ynys Angharad, yn cerdded i'r Comin, yn olrhain hanes Camlas Morgannwg, yn clywed am helyntion Dr William Price ac yn gorffen ger Cofeb yr Anthem. Cost: £4.00. Hyd 2.5-3 awr.

Taith ola'r haf fydd ymweliad ag Ynys Echni ar fore Sul, 31 Awst. Cawn 3 awr ar yr ynys a thaith dywys i glywed ychydig o hanes y lle. Dim ond un sedd sydd ar ôl ar y cwch felly y cyntaf i'r felin! Cost: £40.

**Boreau Coffi yn yr Hybiau**

Hyb Llaneirwg – 10.30-11.30 - bore Mawrth, 15, 29 Gorffennaf. 12, 26 Awst.

Hyb Rhiwbeina – 10.30-11.30 – bore Gwener, 18 Gorffennaf. Dim cyfarfod yn ystod gwyliau'r ysgol.

Hyb Rhydypennau – 10.30-11.30 – bore Iau, 17, 31 Gorffennaf. 14, 28 Awst.

**Siaradwyr Newydd - Y Cwis Mawr**

Cynhelir rownd Bro Morgannwg o'r Cwis Mawr yng Nghanolfan Palmerston, Y Barri, am 6.00yh, nos Fawrth, 15 Gorffennaf. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael i bawb a'r cyfan yn rhad ac am ddim.

Snail's Deli, Rhiwbeina fydd lleoliad rownd Caerdydd, nos Iau, 17 Gorffennaf am 6.00yh gyda phitsa a sglodion ar gael, am ddim, i bawb sy'n cystadlu.

Bydd cyfle i'r timau buddugol fynd ymlaen i gystadlu yn y rownd derfynol ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam gyda thocyn diwrnod am ddim i bob aelod o'r tîm ar gyfer diwrnod y ffeinal, sef dydd Sadwrn, 2 Awst.

Mae'r cwis yn rhan o gynllun cenedlaethol rhwng Mentrau Iaith Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac yn addas i siaradwyr newydd o bob lefel. Caniateir hyd at 4 o bobl mewn tîm gyda chroeso mawr i diwtoriaid ddod i helpu!

**Gweithgareddau'r Gwyliau**

Os ydych chi'n chwilio am weithgareddau i ddiddanu'r plant a'r wyrion yn ystod gwyliau hir yr haf, cofiwch am ein sesiynau chwarae rhad ac am ddim, Bwrlwm! Byddwn yn cynnal sesiynau mewn lleoliadau amrywiol o gwmpas y brifddinas a Bro Morgannwg am gyfnod penodol yn ystod gwyliau'r ysgol.

Bydd ein cynllun Gofal yn rhedeg yn ysgolion Treganna a Melin Gruffydd o ddydd Mawrth, 22 Gorffennaf gan gynnig gofal plant o 8.30 am £35 y dydd. Bydd Clwb Sgiliau Menter Caerdydd hefyd yn rhedeg yn Ysgol y Berllan Deg am dair wythnos gyntaf y gwyliau (£30 y dydd).

Gallwch ddod o hyd i fwy o fanylion am ein gweithgareddau gwyliau ar y wefan neu ar y poster yn y *Dinesydd.*

**Tymor yr hydref - Cadwch y dyddiad:**

- Sain Ffagan – bore i ddysgwyr, Gwener, 12 Medi
- Ymweliad ag Archifau Prifysgol Caerdydd – prynhawn Mawrth, 16 Medi
- Sgwrs y Mis – nos Lun, 22 Medi (Cyfraith Hywel Dda)
- Mewn Tiwn – bore Llun, 29 Medi

I gofrestru ar gyfer gweithgareddau i oedolion, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

Ar gyfer y Cynllun Gofal, ewch i:

mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc/gofal-plant

I gael gwybodaeth am weithgareddau i blant gan gynnwys 'Bwrlwm': mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc/gweithgareddau-gwyliau

Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru

Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg

Instagram: @mentercaerdydd / @menterbromorgannwg

E-bost : post@mentercaerdydd.cymru /

Ffôn: 029 2068 9888

